Wales Best Guides
Tywyswyr Gorau Cymru

# Astudiaeth Ddichonoldeb – Anturiau Diwylliannol Tywysedig yng Nghefn Gwlad Ceredigion








Cyngor Sir CEREDIGION County Council

CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ... 4
1.0 Rhagarweiniad ... 6
1.1 Diffiniadau ... 6
2.0 Amcanion, Allbynnau a Buddion y Prosiect ... 6
2.1 Amcanion ... 6
2.2 Allbynnau o'r brîff ... 7
2.3 Buddion Gwerth Atodol ... 7
3.0 Ffit Strategol ... 8
4.0 Methodoleg ... 10
5.0 Rhanddeiliaid Allweddol ... 11
5.1 Ymgysylltu â Phobl Ifainc ... 12
6.0 Allbynnau Ymchwil ... 12
6.1 Arolygon Ymwelwyr ... 12
6.2 Amseriad Arolygon ac Ymatebion Amrywiol ... 13
6.3 Canlyniadau'r Arolwg a Chanfyddiadau Nodedig ... 13
6.3.1 Amrediadau Incwm – Siart 1, Atodiad 1 ... 13
6.3.2 Man aros– Siart 2, Atodiad 1 ... 13
6.3.3 Hyd arhosiad – Siart 3 Atodiad 1 ... 13
6.3.4 A ymwelwyd â Chefn Gwlad? – Siart 4, Atodiad 1 ... 13
6.3.5 Pam nad ymwelwyd â Chefn Gwlad? – Tabl 1, Atodiad 1 ... 13
6.3.6 Argraffiadau am ansawdd – Siart 5.1 – 5.5, Atodiad 1 ... 14
6.3.7 Awgrymu gwelliannau – Tabl 2.1, 2.2, Atodiad 1 ... 14
6.4 Casgliadau – adborth ymwelwyr ... 14
6.5 Arolygon Busnes Siart 6.1 – 6.8, Atodiad 1 ... 15
6.6 Cyfweliadau â Rhanddeiliaid ... 15
6.7 Casgliadau Busnes ac Adborth Rhanddeiliaid ... 16
6.8 Ymweliad arsylwadol â Llandysul, 29ain Medi tan 1af Hydref ... 17

# Cynnwys (parhad)

6.9 Atborth Cynnwys gan Ddefnyddwyr (ACDd) . . . 17
6.10 Casgliadau, Arsylwadau ac ACDd . . . 18
6.11 Llandysul a'r Cyffiniau a'r Pwyntiau Gwerthu Unigryw (PGU) . . . 18
7.0 Opsiynau argymelledig . . . 18
7.1 Sefydliad corff cydlynu . . . 18
7.2 Gweithgaredd brandio, yn cynnwys PGU, lleoliadau a themâu . . . 19
7.3 Datblygiad a darpariaeth Anturiau Diwylliannol Tywysedig . . . 20
7.4 Ffurfiant a hyfforddiant grŵp Tywyswyr Twristaidd lleol . . . 20
7.5 Llunio bas-data Anturiau Diwylliannol Tywysedig ymhob un o drefi Cefn Gwlad Ceredigion . . . 21
7.6 Gwelliant cymwysterau a lleoliadau, er lles ymwelwyr . . . 21
7.7 Ymgyrch Farchnata a Gwerthu, yn cynnwys sianeli prynu rhestredig, er sicrhau fod Anturiau Diwylliannol Tywysedig yn digwydd . . . 22
7.8 Gŵyl Anturiau Diwylliannol Tywysedig . . . 22
7.9 Costau'r argymhellion at ddibenion ariannu . . . 22
8.0 Themâu a theithlenni . . . 23
8.1 Taith arbrofol . . . 23
8.2 Pa mor fforddadwy? . . . 23
8.3 Syniadau pellach am Anturiau Diwylliannol Tywysedig . . . 24
8.4 Adborth o ran syniadau am Anturiau Diwylliannol Tywysedig . . . 26
9.0 Themâu sy'n croes-redeg . . . 27
9.1 Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig . . . 27
9.2 Amgylcheddol a Charbon isel . . . 27
9.3 Diogelwch . . . 27
9.4 Cymuned a llesiant . . . 27
10.0 Cyfnodedd ac amseru . . . 28
11.0 Casgliad Astudiaeth Ddichonoldeb . . . 28
Atodiad 1 – Siartiau a Thablau ymchwil . . . 29
Atodiad 2 – Sylwadau gan ymatebwyr arolwg busnes . . . 37
Atodiad 3 – Taflenni bras yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig a ddefnyddir mewn ymchwil a siartiau data . . . 42
Atodiad 4 – Cynllun gweithredu a chostau tebygol . . . 47

***Crynodeb Gweithredol***

Mae'r adroddiad hwn yn nodi argymhellion o ran posibiliadau darparu Anturiau Diwylliannol Tywysedig yng Nghefn Gwlad Ceredigion, gan ganolbwyntio ar dref Llandysul. Hanfod y prosiect hwn oedd dirnad barn y sectorau twristiaeth a gwasanaeth a'i ymwelwyr, ynglŷn â'r angen a'r galw am Anturiau Diwylliannol Tywysedig yng nghefn gwlad Ceredigion. Y nod oedd casglu tystiolaeth uniongyrchol a fydd yn rhwym o ddylanwadu ar fwriad i ddatblygu teithiau tywysedig rheolaidd ac o ansawdd da, i fannau diddorol, a hynny yn arbennig yng nghyffiniau Llandysul. Bwriedir i'r canfyddiadau fod yn rhyw fath o batrwm, o ran posibiliadau defnyddio'r syniad mewn rhannau eraill o gefn gwlad Ceredigion.

Cefnogwyd y gwaith o gomisiynu'r adroddiad drwy gynllun Cynnal y Cardi. Daeth y cyllid gogyfer â hyn drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Wrth baratoi'r astudiaeth ddichonoldeb hon, mae tîm y prosiect wedi canolbwyntio ar economi ymwelwyr y tu hwnt i'r pandemig byd-eang. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae mesurau rheoli Covid a rheoli risg yn parhau i fod yn angenrheidiol ac mae'r holl weithgareddau wedi'u rheoli'n briodol i adlewyrchu cynlluniau rheoli Coronafeirws Llywodraeth Cymru, fel y'u cyhoeddwyd ac yn berthnasol. Dyfarnwyd y tendr i Wales Best Guide Enterprises, cangen fasnachu WOTGA, sef Cymdeithas Tywysyddion Swyddogol Cymru, y bu ei haelodau'n darparu Teithiau Tywysedig ledled Cymru ers ymron ddeugain mlynedd.

Cafwyd gwybodaeth ynglŷn â'r hyn oedd orau gan ymwelwyr â Cheredigion, drwy ddosbarthu holiaduron. Yn gyffredinol, dengys canlyniadau'r arolwg fod yna farchnad nas cyffyrddwyd hyd yn hyn, yn fodd i hybu twristiaeth wledig yng Ngheredigion, ond mai'r her fydd denu'r farchnad hon oddiwrth atyniadau'r arfordir.

O ran teuluoedd a'r di-deulu, dangosodd yr arolygon nad oedd mwy na'u hanner, sef 58.5% a 61.5% yn eu tro, wedi ymweld â'r ardaloedd gwledig, i ffwrdd o'r arfordir, yn ystod eu gwyliau. Yn ôl sampl y cyfweliadau gydag ymatebwyr o'r arfordir, gofynnodd 39, allan o'r 120 a wnaeth awgrymiadau, am wybodaeth amgenach.

Mae casglu'r data ar gyfer yr adroddiad hefyd wedi nodi pwysigrwydd cynyddol yn y blynyddoedd diwethaf bod darparwyr llety newydd yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan ymwelwyr, ac yn benodol, y ffafriaeth i Airbnb. Rhwng 2018 a 2019, roedd 824 o letyau ar gael trwy Airbnb.

Mae yna falchder amlwg yn etifeddiaeth ddiwylliannol yr ardal, ac awydd gwirioneddol i rannu hyn gyda'r sawl sydd yn ymweld â'r dref. Mae tref Llandysul yn daclus tu hwnt, heb ysbwriel, a mae iddi amryw nodweddion diddorol. Rhaid sôn yn arbennig am y Parc Coffa a'r ardal ehangach wrth yr afon, sy'n llecyn delfrydol ar gyfer ambell welliant sensitif a datblygiad fel hwb ar gyfer cyfleusterau ymwelwyr, er budd y gymuned a'r ymwelwyr hwythau. Mae gwirfoddolwyr a swyddogion cyflogedig yn cydweithredu â'r gymuned fusnes, ond mae angen eu cefnogi a'u cyfeirio, i gyflawni eu priod amcanion. Nododd yr adroddiad gyfleoedd arbennig o fewn i'r gymuned fusnes, i ymgysylltu â'r ymwelydd diwylliannol. Darperir cyfle di-ail i ymwelwyr fedru profi a dysgu am wledd ddiwylliannol gyfoethog yr ardaloedd, a hynny drwy fusnesau megis Cariad Glass a Telynau Teifi, a chynhyrchwyr bwyd lleol yng nghylch Llandysul. Mae yna awydd diamheuol i ymwneud â'r Anturiau Diwylliannol Tywysedig, a cheir amryw fusnesau yn bleidiol i'r syniad o fuddsoddi eu cyllid eu hunain a darparu cefnogaeth ymarferol arall, a bwrw fod gobaith am gyllid cyfochrog neu gyfraniadau eraill. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a marchnata

unrhyw syniad newydd. Bydd angen cefnogaeth ariannol i'r perwyl hwn, a byddem yn argymell gweithdy datblygu, at y gwaith. Hefyd credwn fod cyfle a chefnogaeth i dywyswyr lleol gynorthwyo'r busnesau hynny yn eu gweithleoedd drwy arwain Anturiau Diwylliannol Tywysedig. Beth bynnag, bydd cyflwyno'r syniad o Anturiau Diwylliannol Tywysedig mewn modd deniadol yn allweddol bwysig, a hynny yn rheolaidd. Mae'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg (oedd yn galw am fwy o wybodaeth) yn awgrymu diffyg brandio pendant o ran diwylliant yr ardal. Dangosodd rhai mentrau amlwg yn ddiweddar, mentrau megis prosiect Twristiaeth Etifeddiaeth Cadw neu brosiect Mona Antiqua ar Ynys Môn, fod neges a brand eglur, ynghyd â buddsoddiad o ran dehongli, yn fodd i sicrhau profiad llawer mwy boddhaol i ymwelwyr, yn ogystal â chyplysu safleoedd unigol yn becyn taclus ar eu cyfer.

### *Opsiynau Argymelledig*

Mae'r adroddiad yn cynnwys Cynllun Gweithredu (Atodiad 4) ac amryw o argymhellion ynglŷn â chyflwyno'r Anturiau Diwylliannol Tywysedig. O ran y rhain, rhoddwyd blaenoriaeth i'r hyn sy'n allweddol er sicrhau llwyddiant menter.

- Sefydlu corff cydlynu.
- Brandio cymwys, yn cynnwys PGU, lleoliadau a themâu.
- Ffurfio a hyfforddi grŵp o Dywyswyr Twristaidd lleol.
- Gwella cyfleusterau a lleoliadau, er budd. ymwelwyr.
- Adnabod ffynonellau cyllid er gweithredu'r argymhellion uchod.

O fedru gweithredu'r cyfryw argymhellion, bydd modd darparu Anturiau Diwylliannol Tywysedig a fydd yn sail i gynllun newydd a threfnus, er mwyn denu ymwelwyr i gefn gwlad Ceredigion. Cyflwynir arsylwadau manwl a gwybodaeth atodol, ynghyd â'r argymhellion uchod.

Gallai Anturiau Diwylliannol Tywysedig fod fel a ganlyn:

- Teithiau dan arweiniad, gyda chludiant o le i le.
- Teithiau dan arweiniad, gyda Thywyswyr yn cyfarfod ymwelwyr hwnt ac yma, ymwelwyr yn defnyddio'u cludiant eu hunain.
- Teithiau audio, ymwelwyr yn defnyddio App i'w cyfarwyddo ar eu hynt.
- Teithiau annibynnol, ymwelwyr yn lawrlwytho deunydd digidol neu'n dibynnu ar daflen brintiedig.

### *Prisio*

Argymhellir ystyried pris cystadleuol wedi ei sybsideiddio, ynghyd â thocyn teuluol ar gyfer grwpiau teuluol. Prisiau disgownt i ennyn diddordeb yn y dyddiau cynnar, fyddai hyn – rhyw 'dynnu Sion i'r wledd' fel petai – gan sefydlu prisiau mwy realistig gydag amser, wrth i'r galw gynyddu.



## 1.0 Rhagarweiniad

O ganlyniad i dendr cystadleuol, ym mis Gorffennaf 2021, comisiynodd Cynnal y Cardi Wales Best Guides Enterprises Ltd i ymgymryd ag Astudiaeth Ddichonoldeb er mwyn archwilio'r cyfleoedd i ddatblygu Anturiau Diwylliannol Tywysedig yng Nghefn Gwlad Ceredigion.  Prif amcanion y fenter yw **datblygu cyfleoedd busnes newydd, cynorthwyo busnesau a rhoi hwb i gyflogwyr yng Nghefn Gwlad Ceredigion**, drwy roi chwistrelliad i sector dwristaidd yr ardal a rhannu buddion y diwydiant ymwelwyr. Penderfynwyd ar yr enw "Anturiau Diwylliannol Tywysedig" gan Cynnal y Cardi, law yn llaw â rhanddeiliaid lleol, i adlewyrchu'r amrywiaeth oedd ar gael ar gyfer y sawl sy'n ymweld â Chefn Gwlad Ceredigion, ac yn arbennig dref Llandysul a'r cyffiniau.  Dewiswyd hon fel yr ardal gyntaf i'w hymchwilio mewn perthynas â'r argymhellion, a hynny gyda chefnogaeth y corff datblygu lleol Llandysul Pont Tyweli Ymlaen.

Cefnogwyd yr astudiaeth ddichonoldeb gan gynllun LEADER Cynnal y Cardi a ariannwyd drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

### 1.1 Diffiniadau

Diffinir Tywysydd Twristaidd fel person sy'n tywys ymwelwyr yn eu dewis iaith, gan ddehongli etifeddiaeth ddiwylliannol a naturiol ardal; mae'r person hwnnw fel arfer â chymhwyster ardal-sbesiffig a roddir/a gydnabyddir gan yr awdurdod cymwys. Ffynhonnell: **FEG (feg-touristguides.com)**.

Disgrifir diwylliant fel: "arferion a chredoau, celfyddyd, ffordd o fyw, a threfniant cymdeithasol gwlad neu grŵp arbennig" (cyfieithiad o'r diffiniad yn **OxfordLearnersDictionaries.com**).

Diffinir twristiaeth antur gan United Nations World Tourism Organisation ( Sefydliad Twristiaeth Byd y Cenhedloedd Unedig) fel "taith sy'n cynnwys o leiaf ddwy allan o dair o'r elfennau canlynol: gweithgaredd corfforol, amgylchedd naturiol a throchiad diwylliannol,"  (**cyfieithiad o'r unwto-global-report**, tud.10).

Diffiniad y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol o 'Cefn Gwlad' yw unrhyw gymuned o lai na 10,000 o drigolion, sy'n golygu bod Sir Ceredigion yn gyfan, ar wahan i Aberystwyth, yn 'Gefn Gwlad'. Diffinir 'Cefn Gwlad', at ddibenion yr ymarfer hwn, yn berthynol i Ceredigion, h.y. gan hepgor yr arfordir a chan ddefnyddio tair tref fewndirol Ceredigion a'u cyffiniau fel hybiau er datblygu a threfnu Anturiau Diwylliannol Tywysedig.  Llanbedr Pont Steffan, Tregaron a Llandysul yw'r rhain.

## 2.0 Amcanion, Allbynnau a Buddion y Prosiect

### 2.1 Amcanion

O ystyried y prif amcanion, fe'u cyflawnir drwy sicrhau'r canlynol:

- Canfod yr hyn yr hoffai ymwelwyr ei weld a nodi sut y gellid datblygu syniadau a gweithgareddau, law yn llaw â busnesau lleol ac asiantaethau-cefnogi eraill.
- Ymdrafod â sawl sector er mwyn penderfynu maint diddordeb twristiaid a chymdeithasau/busnesau lleol.
- Casglu tystiolaeth bendant i gefnogi'r bwriad i ddatblygu teithiau tywysedig rheolaidd, o ansawdd da, i fannau diddorol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar Landysul a'r cyffiniau.
- Creu cyfle i fentrau lleol, llai o faint, i gynnig profiadau mwy dilys, o'u cyflwyno a'u marchnata'n effethiol, naill ai drwy ganolwyr neu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr.
- Meithrin ac annog ymwelwyr i fentro i ardaloedd ac atyniadau nas ymwelwyd â hwy fel arfer.
- Sicrhau pa mor ymarferol yw'r cynllun

- Sylweddoli grym partneriaeth drwy weithredu ar y cyd ag amrywiaeth helaeth o gyrff, er mwyn creu cynllun cynaladwy y gellid ei gwblhau gan fenter leol.
- Creu cynllun gwreiddiol,a chanddo'r potensial i gael ei atgynhyrchu ar draws ardaloedd Gwledig eraill yng Ngheredigion.
- Manteisio i'r eithaf ar asedau diwylliannol Ceredigion drwy gydio yn y cyfle i ddatblygu teithiau diwylliannol ag iddynt ogwydd Cymreig o ansawdd uchel, hynny i geisio adfer cefnogaeth pobl i'r diwydiant lletygarwch ac atyniadau lleol eraill, megis bragdai bychain, a chynhyrchwyr bwyd, er mwyn cefnogi'r economi leol.
- Cefnogi tuedd gynyddol at dwristiaeth gynaladwy, yn cynnwys mentro i leoedd y tu hwnt i'r mannau lle mae twristiaid yn heidio fel arfer.
- Cynnwys themâu sy'n croes-redeg, megis pethau sy'n adlewyrchu "Cymreictod" yn drwm, ymhob profiad; cefnogi ambell ymarfer da i warchod yr amgylchedd lleol a dangos ôl-troed carbon isel; gofalu bod yr Anturiau'n werth yr arian ac yn gost-effeithiol i'w trefnu; darparu gweithgareddau difyr a diogel, sy'n cymell pobl i rannu eu profiadau gydag eraill neu i ymweld drachefn.

## 2.2 Allbynnau o'r brîff

Gwnaed fel a ganlyn er mwyn cefnogi cyrraedd y nod:

- Canfod yr hyn sy'n bodoli eisoes yng Ngheredigion er sicrhau cyfatebolrwydd. Mae'n dyngedfennol fod unrhyw gynllun yn talu'n llawn am ei le.
- Canfod rhanddeiliaid lleol hollbwysig, i fod yn rhan o'r broses gynllunio, ac a fydd o bosib, yn cyfrannu at ryw gynllun neu'i gilydd yn y dyfodol.
- Ymgynghori ag ymwelwyr â Cheredigion, a chael eu barn (yn cynnwys sampl o ymwelwyr ar hyd yr arfordir, a'r rheiny sy'n tynnu at y mewndir).
- Ymgynghori â phobl sy'n darparu llety gwyliau'n lleol (a chael eu barn), megis y diwydiant bythynnod gwyliau, yr amrywiol westai a safleoedd carafanau (sefydlog a theithiol) ar hyd a lled Ceredigion.
- Ymgynghori â busnesau ac atyniadau lleol sy'n darparu, neu'n dymuno darparu, ac elwa o brofiad ymwelwyr tywysedig.
- Ymgynghori â'r bobl sy'n destun yr arolwg, a chael eu barn ar y prisiau y bwriedir eu codi, dadansoddi'r pris a fyddai'n dderbyniol iddynt, a cheisio dyfalu hefyd sut y gellid sicrhau fod cynllun o'r fath yn gynaladwy, o ran cost, yn y dyfodol.
- Canfod pecynnau/ teithiau posibl, yn fan cychwyn datblygiad newydd.
- Penderfynu ar strategaeth farchnata addas, gan gynnwys y dull gorau o sicrhau gwerthiant effeithiol i'r teithiau tywys.
- Cynnig patrwm addas o gynllun, gogyfer â'r dyfodol.
- Canfod cynlluniau llwyddiannus cyffelyb, y gellid dysgu oddiwrthynt.
- Nodi egwyddorion y gellid eu defnyddio fel patrwm ar gyfer ardaloedd eraill yng Ngheredigion.

## 2.3 Buddion manteisiol

Mae'r ymgynghorwyr o'r farn y dylai buddion eraill ddeillio o'r cynllun, yn y pen draw – hyn yn ychwanegol at y buddion uniongyrchol (datblygiad cyfleoedd busnes newydd, helpu busnesau Cefn Gwlad, hybu byd cyflogaeth ac ati) – fel a ganlyn:

- Codi proffil Llandysul, yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn fydeang hyd yn oed!
- Basdata o weithgareddau hamdden lleol a'u darparwyr.
- Basdata o'r gadwyn gyflenwi sy'n cefnogi'r cyfryw.
- Gwell cydlyniad cymunedol, o ganlyniad i gydweithio er gwella profiad ymwelwyr.
- Buddion iechyd, o ganlyniad i bwyslais trymach ar gerdded a dulliau teithio iachach.

- Y gymuned leol yn elwa, yn sgîl datblygu profiad ymwelwyr.
- Adnodd cynhwysfawr hanesion lleol
- Balchder dinesig ar gynnydd, o wybod hanesion y gymdogaeth.
- Mwy o weithgareddau i bobl o bob oed yn y gymuned
- Ennyn diddordeb ychwanegol yr ieuenctid yn eu hetifeddiaeth gymunedol.

## 3.0 Ffit Strategol

Talwyd sylw i sawl dogfen bolisi a strategaeth, ac i fentrau lleol blaenorol, wrth baratoi'r adroddiad hwn, a'r rheiny'n ymwneud â'r DG, Cymru, yr Awdurdod Lleol a thref Llandysul. Mae'n allweddol bwysig, o ran marchnata'r Anturiau Diwylliannol Tywysedig, fod y cyfan yn unol â gwerthoedd a naws ymgyrchoedd marchnata eraill sy'n ymwneud â defnyddwyr yng Nghymru.

Yn benodedig, ystyriwyd y strategaethau canlynol:

- Llywodraeth Cymru a dogfen Croeso Cymru: **Croeso i Gymru: blaenoriaethau â'r economi ymwelwyr 2020 i 2025**, a'i dogfen adfer o'r COVID, **Dewch i lunio'r dyfodol**. O fewn i'r strategaeth hon, mae yna bwyslais ar dwristiaeth gymunedol, ond hefyd sonnir am fuddsoddi mewn meysydd pwysig eraill; felly mae'n hanfodol dal cysylltiad â'r cyfryw feysydd, a bwrw fod y rheiny, o ran Ceredigion, yn y mannau arfordirol.

- Dogfen Cyngor Sir Ceredigion, **Hybu Economi Ceredigion, Strategaeth i weithredu 2020-35**. Gall y strategaeth hwn i fod yn gymorth i godi y proffil o ddenu ymwelwyr i Gefn Gwlad, gan gynyddu cefnogaeth y bartneriaeth i'r ardaloedd hynny. Mae Croeso Cymru yn dymuno adfywio dull Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau, ac yn y gorffennol mae Cyngor Sir Ceredigion wedi arwain ar hyn.

- Mae Tyfu Canolbarth Cymru, y bartneriaeth ranbarthol er hybu a sicrhau tyfiant, yn cyfrif twristiaeth yn sector allweddol o fewn i ardal Canolbarth Cymru, fel y dengys ei dogfen strategol a phrosiect **Tyfu Canolbarth Cymru**, yn cynnwys atyniadau amlwg ar gyfer ymwelwyr a chynllun marchnata cydlynol ar gyfer amryw leoedd. Sonnir hefyd am welliannau isadeiledd a fydd yn fanteisiol o ran yr economi ymwelwyr, megis cysylltiadau digidol cyflymach, cynlluniau teithio amgenach, buddsoddi mewn cludiant carbon-isel, a chonsortia pwrcasu lleol.

- Mae **Strategaeth Ddatblygu Lleol** a gyhoeddwyd gan Cynnal y Cardi wedi penderfynu ei bod yn flaenoriaeth allweddol *"i sicrhau fod Ceredigion yn fan neilltuol a deniadol i fyw, gweithio a dod i ymweld"* (fel rhan o'i hadolygiad o'r Strategaeth Ddatblygu Lleol ym Medi 2020). Y bwriad yw pwyso a mesur cyfleoedd i gefnogi a chynnal economi trefi marchnad Ceredigion a chryfhau hunaniaeth yr ardal drwy fanteisio ar eu hasedau diwylliannol. Bwriedir hefyd hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau sy'n cynnwys elfennau cymdeithasol ac economaidd i atgyfnerthu'r iaith Gymraeg. Mae yna fanteision arbennig i hyn oll i'r Themau canlynol - 1. Cryfhau hunaniaeth leol ac ychwanegu at adnoddau naturiol a diwylliannol, 2. Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr a 5.Manteisio i'r eithaf ar faes technoleg ddigidol.

- Mae gan **Dwristiaeth Canolbarth Cymru** restr o brosiectau â'u gogwydd yn bennaf at farchnata, ond hefyd yn cefnogi Ymweld â Chymru drwy ei Bas data Cynnyrch Twristiaeth Cymru (BCTC), sef rhestr o holl fusnesau twristaidd graddedig a chydnabyddedig Cymru. Maent hefyd yn gyfrifol am wefan 'showmewales', gan ddefnyddio hashnod #realmidwales . Â hwythau'n sefydliad busnes

twristaidd, yn ogystal â bod yn fusnes ymgynghorol twristaidd hir-sefydlog, gallant gynrychioli llais y cwmni teithio a bod yn gyfrwng cysylltu â'r sector breifat, gan gefnogi hefyd a rhoi cyhoeddusrwydd i gyrff megis Anturiau Diwylliannol Tywysedig.

- Cyfeiriwyd at strategaethau perthnasol eraill nad oeddynt ym gysylltiedig â thwristiaeth. Strategaeth Llywodraeth Cymru yr iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru, sef **Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg**, lle y gwelir ardaloedd Cefn Gwlad yn allweddol o ran y tŵf yn nefnydd yr iaith Gymraeg. Bwriadwn weld ymgorffori elfennau o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig fel rhan anatod o'r antur ddiwylliannol dywysedig. Dehonglir hyn ymhellach gan gynllun gweithredu strategaeth iaith Cyngor Sir Ceredigion, drwy deilwra gweithgareddau er cyrraedd Nod Strategol 3, Creu amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r iaith Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion. Ystyriwyd yn ogystal, fel rhan o'r datblygiad y strategaeth 7 pwynt er gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan weld materion megis teithio grŵp, teithio gweithredol, ymgysylltu â phobl ifainc a budd economaidd, fel canlyniadau buddiol y datblygiadau.

- **Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DG a'r Gronfa Lefelu ar y cyd**. Mae Cymru'n denu arian gan Lywodraeth y DG, a fwriadwyd i ddisodli Cyllid Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Sicrhaodd Ceredigion £2,830,546 o'r cyfanswm o £46,855,257 a ddyfarnwyd i Gymru ym mis Tachwedd 2021, a rhaid dal gafael ar y cyfleoedd hyn yn sgîl arweiniad Llywodraeth Cymru.

- **Adolygiad Mannau Heddychlon**, Tachwedd 2017 – darn pwysig o waith, o ran codi proffil llwybrau ffydd a phrofiadau tywysiedig yng Ngogledd Ceredigion.

- Cynllun Lle Llandysul o adroddiad 2019 **Cynlluniau Lle Ceredigion, Adfwyio Llandysul** a'r cynllun gweithredu a gomisiynwyd gan Ben Lake AS yn 2018, hefyd adroddiad **Stiwdio Hanes Dyfodol Cefn Gwlad**, yn cynnwys amryw syniadau ar gyfer datblygu, gyda golwg ar ddarparu asedau cymunedol; ar yr un pryd, bydd y dyhead twristaidd, yn ddi-os, yn elwa oddiwrth ambell un o'r cyfryw ddatblygiadau. Mae'r gymuned o'r farn fod angen mwy o'r gweithredu hyn, a mae rhanddeiliaid yn eiddgar a brwd i'w weld yn digwydd.



- **Cynlluniau adfer busnes** gan Gymdeithas Tywyswyr Twristaidd Swyddogol Cymru (CTTSC/"WOTGA"), yn nodi dull mwy digidol a chymunedol o ddatblygu Tywys Twristaidd yng Nghymru.

- **Strategaeth Dwristaidd Biosffer Dyfi**. Mae'r strategaeth hon wedi bod yn ei lle ers 2013, gan weithredu'r StoryBus. Er nad yw'n perthyn yn hollol i'r ardal, mae'n berthnasol i ryw raddau, fel menter lwyddiannus gyffelyb a welwyd eisoes.

Ceisiwyd cyngor ynglŷn â'r gwaith hwn gan rywrai sydd â chyfrifoldeb am y strategaethau hyn.

Fel troed-nodyn i'r Ffit Strategol, hoffem dynnu sylw, yn ogystal, at Brosiect Etifeddiaeth Dwristaidd Cadw, sydd wedi ei ariannu gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop (ERDF yn Saesneg neu Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd CDRhE yn Gymraeg). Defnyddiwyd y prosiect hwn i hyrwyddo cofgolofnau dan ofal Cadw, a phartneriaeth gydag Ynys Môn o'r enw Prosiect Mona Antiqua dan arweiniad Asiantaeth Mentrau Gwledig Menter Môn, law yn llaw â Chyngor Sir Ynys Môn. Datblygodd y prosiect frand eglur er hyrwyddo etifeddiaeth ddiwylliannol, a sefydlodd y Cynlluniau Dehongliadol feincnod gogyfer â Dehongli. Digon posib y gellid efelychu hyn yng nghyd-destun ambell fenter yng Nghefn Gwlad Ceredigion.

## 4.0 Methodoleg

O sicrhau'r cytundeb, cytunwyd ar gynllun prosiect gyda Cynnal y Cardi i gynnwys y canlynol:

| Tasg | Manylion |
|---|---|
| Cyfarfod cyntaf â'r cwsmer | Cyflwyno ein tîm a'u swyddogaethau, cyfarfod â thîm y cwsmer a'r sawl sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith, trefnu sut i gyfathrebu, trafod y brîff gyda'r cwsmer er mwyn cytuno allbynnau a chanlyniadau, nodi sut y gall y cwsmer gefnogi allbynnau gwaith e.e. cysylltu â phobl sy'n ymchwilio, ymgynghorwyr allweddol ac ati. |
| Hysbysu'r rhanddeiliaid am y cytundeb | Drafftio datganiad cyffredinol a datganiad i'r wasg ynghylch y prosiect, gan ei ddosbarthu yn uniongyrchol neu drwy gyfryngau amrywiol. |
| Nodi cynulleidfa ymchwil | Rhannu'r gynulleidfa (ymwelwyr, busnesau sy'n croesawu ymwelwyr a busnesau sy'n darparu profiad i eraill) yn unol â'r briff. Cadarnhau y dull gorau o gysylltu â'r cynulliadau a sicrhau eu bod yn cyfranogi. |
| Rhestru a chofnodi materion risg | Llunio rhestr risgiau'r prosiect i'w trafod yng nghyfarfodydd prosiect y tîm, ac i'w defnyddio wrth i'r prosiect fynd rhagddo. |
| Cwblhau dulliau ymchwil a chynllun ar gyfer pob cynulliad | Creu arolygon, holiaduron ac ati, er cael ymatebion perthnasol i'r brîff. Cynnwys technoleg ddigidol er mwyn creu yr effaith orau. Cynnwys elfennau yn dangos capasiti a dichonoldeb y cynigion Tywysedig. Cynnwys elfennau diogelu data er tawelu meddwl cyfranogwyr. |
| Cwblhau ymchwil – darparwyr y sector dwristiaeth | Naill ai yn rhithiol/ddigidol neu wyneb yn wyneb, gweithredu yn unol â rhagfanylion ymchwil a gynlluniwyd ymlaen llaw. |
| Modelu clystyrau busnes/darparwyr profiad | Cydweithio law yn llaw â chlystyrau sydd yn bodoli eisoes, neu awgrymu clystyrau newydd posib i hybu datblygiadau'r dyfodol. |
| Cwblhau ymchwil – cynulleidfa ymwelwyr | Pwysleisio marchnadoedd di-deulu, cyfnodau ar wahân i gyfnodau gwyliau ysgol. |

| Tasg | Manylion |
|---|---|
| Arolwg canol-tymor | Cyflwyno adroddiad interim i'r cwsmer. Nodi themâu sy'n brigo i'r golwg, pwyslais ar ymchwil pellach. Ail ystyried y gofrestr risg a'i diweddaru. |
| Cwblhau ymchwil – cynulleidfa ymwelwyr | Pwysleisio marchnadoedd teulu, gwyliau ysgol. |
| Dadansoddi canlyniadau ymchwil | Cydlynu'r canlyniadau ymchwil oll, diogelu a storio'r data. |
| Dehongli canfyddiadau | Cyflwyno mewn modd darllenadwy, hawdd ei weithredu. |
| Awgrymu syniadau am Anturiau Tywysedig | Seiliedig ar ymchwil, capasiti busnesau lleol a rhanbarthol. |
| Prisio'r syniadau am Anturiau Tywysedig | Pwysleisio cyfuniad o ymarferoldeb a budd economiadd |
| Casglu barn bellach ymwelwyr a darparwyr llety | Rhoi prawf ar argymhellion, hefyd y prisiau a awgrymwyd, drwy gyfweliadau a holiaduron ysgrifenedig. |
| Cyflwyno argymhellion | Gosod cyfres o argymhellion gerbron y cwsmer a'r grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ardal Llandysul, gan gynnwys y templed y gofynnwyd amdano ar gyfer ardal ehangach Ceredigion. |
| Cwblhau'r drafft a'i gynhyrchu'n ddwyieithog | Pwyslais ar fod yn ddarllenadwy, gydag argymhellion eglur ar gyfer cyflenwyr sydd â chysylltiad lleol. |
| Adolygu'r drafft | Cyflwyno'r drafft i'r cwsmer, gwelliannau i'w gwneud gogyfer â chyflwyniad terfynol adroddiad dwyieithog. |
| Darparu adroddiad dwyieithog | Cyflwynir yr adroddiad ar lun darlun cyflawn, cryno, hwylus ei argymhellion a darllenadwy, a hynny yn ddwyieithog. Diogelu'r data cefndirol mewn archif a'i gyflwyno hefyd i'r cwsmer. |
| Gweithgaredd wedi'r prosiect | Gwerthuso gwaith Wales Best Guides Enterprises Ltd. |

## *5.0 Rhanddeiliaid Allweddol*

Enwodd y cwsmer Randdeiliaid Allweddol, ac ychwanegwyd eraill at y grŵp hwnnw i ffurfio panel ymgynghorol. Cynhwyswyd Rhanddeiliaid i gynrychioli cyrff etholedig, cyrff strategol rhanbarthol, sefydliadau datblygu lleol, pobl fusnes o'r sector breifat a'u cyrff cynrychioliadol, buddiannau datblygu cymunedol, trefnwyr digwyddiadau tref a chyfranogwyr gweithredol eraill.

Dyma'r Rhanddeiliaid Allweddol:

Cyng Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Cymuned Llandysul. Mae'r Cyngh Evans yn ddiflino yn cefnogi cyflawni gwelliannau ar gyfer Llandysul a chaiff ei grybwyll yn sylweddol ar ochr gyflawni adroddiad Ben Lake AS, ar ôl ymgynghoriad cymunedol.

Anne Edwards, Dolen Teifi a Llandysul Pont Tyweli Ymlaen.  Rheolwr y gymdeithas drafnidiaeth gymunedol sy'n cefnogi Llandysul, ynghyd â diddordebau eraill er datblygu'r economi leol.

Suzanna van Eeghen, Llandysul Pont Tyweli

Ymlaen, aelod ers cryn amser o'r gymuned dwristaidd leol.

**Val Hawkins**, Twristiaeth Canolbarth Cymru, PSG y corff aelodaeth twristaidd hwn, sy'n derbyn sawl barn o'r sector breifat, a chyngor ynglŷn â mentrau twristaidd ehangach yn yr ardal a ledled Cymru.

**Meleri Richards**, Cydlynydd Cymunedau Gwledig, Cynnal y Cardi. Comisiynydd y gwaith hwn, sicrhau ei fod yn unol ag amcanion LEADER, a ninnau'n bwrw ati wedyn.

**Beti Gordon**, Swyddog Datblygu Trefi Gwledig, a Catrin George, Swyddog Cymunedau Gwledig, Cynnal y Cardi. Eu gwaith hwy sy'n dylanwadu ac yn sicrhau cyfatebolrwydd â'r mentrau eraill cysylltiedig â datblygu trefi gwledig yng Ngheredigion.

**Gwenfair Owen**, Swyddog Twristiaeth Ceredigion. Mae gan Gwenfair Owen flynyddoedd maith o brofiad o fyd twristiaeth Ceredigion, a hi sy'n arwain o ran y Bartneriaeth Reoli Cyrchfannau.

**Tom Cowcher**, Perchennog, The Long Barn a Chynghorydd Cymuned. Mae gan Tom Cowcher brofiad o'r diwydiant twristiaeth, a daw â chryn dipyn o wybodaeth leol a hanesyddol i'r fenter.

**Mike Hotson**, arts4wellbeing, Cynghorydd Cymuned a datblygu'r gymuned. Mae gan Mike gyfraniad arwyddocáol, o ran ymgynghori cymunedol yn y cylch yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bu'n gaffaeliad i'r gwaith.

**Julie Lewis**, Tyfu Canolbarth Cymru. Mae gan Julie farn am y gwaith o ran strategaeth a phrosiectau Tyfu Canolbarth Cymru, a mae'n arbennig o hyddysg yn yr economi ymwelwyr ar gyfrif ei gwaith blaenorol, sef Swyddog Twristiaeth Powys.

**Lesley Parker**, Solutions Factory ac aelod grŵp Llwybr Teifi, cynrychiolydd Llandysul ar gorff Smart Towns. Mae hi'n arbenigwraig ddigidol ac yn drefnydd ymroddedig a brwd o ran gwyliau a digwyddiadau yn nhref Llandysul.

**Gareth Bryant**, Perchennog Llandysul Paddlers, atyniad hollbwysig i ymwelwyr â Llandysul.

**Sandra Richards**, Perchennog Nyth y Robin, siop lyfrau flaengar a chaffi llwyddiannus. Mae Sandra hefyd yn fyfyriwr ôl-radd mewn datblygu cymunedol a bydd ei phrofiad ymchwil yn sicr o gymorth i ni.

Cyfwelwyd y Rhanddeiliaid wyneb yn wyneb neu ar y ffôn i gychwyn, cyn eu dwyn ynghyd yn rhithiol ar gyfer trafodaethau pwysig.

### *5.1 Ymgysylltu â Phobl Ifainc*

Cefnogwyd ymarfer ar wahân i ddwyn pobl i mewn er mwyn sicrhau presenoldeb yr ifainc. Yn eu plith mae Steve Parkin, Ieuenctid Tysul; Matt Adams, Calon Tysul ac Elinor Morgan, Ysgol Bro Teifi.

## *6.0 Allbynnau ymchwil*

### *6.1 Arolygon ymwelwyr*

Atodir holl ganfyddiadau'r arolwg ar lun siartiau cylch a thablau, yn niwedd yr adroddiad hwn.

Yn unol â'r briff gwreiddiol, gwnaed arolygon mewn mannau arfordirol yn Aberystwyth, Aberaeron, Llangrannog ac Aberporth, hefyd mewn lleoliadau Gwledig yn Llandysul a'r cyffiniau a Thregaron.

Derbyniwyd 67 ymateb i'r arolwg o'r mannau arfordirol, ac 20 o'r ardaloedd Gwledig.

O graffu ar broffil oed a chyfansoddiad grwpiau'r bobl a gyfrannodd, rhannwyd yr ymatebion ymhellach er mwyn medru dadansoddi dwy garfan o'r farchnad, yn fras, sef y garfan deuluol a chyplau hŷn ac unigolion sengl.

| Arolwg | Y garfan deuluol | Cyplau hŷn neu unigolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Arfordirol | 29 | 38 | 67 |
| Gwledig | 5 | 15 | 20 |
| Cyfansymiau | 34 | 53 | 87 |

### *6.2 Amseriad arolygon a grwpiau ymateb*

Arolygwyd ym misoedd Awst a Medi 2021 yn nhrefi Aberaeron, Aberporth, Llangrannog, Aberystwyth, Llandysul a Thregaron.

O'r data cyd-gasgledig, isrannwyd y grwpiau yn ddau ddyraniad marchnata pendant:
Teuluoedd, gydag is-gategorïau Grŵp Teuluol, gan gynnwys plant dan 5 oed; Grŵp Teuluol yn cynnwys plant 6-12 oed a Grŵp Teuluol yn cynnwys plant yn eu harddegau.
Di-deulu, is-gategorïau cwpwl; rhai dros 50 oed, ar y cyfan; dim grŵp/teithiwr sengl.

Fis Awst, yn y parth arfordirol gyda 67 o ymatebwyr, roedd 16 yn y grŵp di-deulu, a 51 yn grwpiau teuluol. Fis Medi, di-deulu oedd yr ymatebwyr oll.

Mae banc llawn o ymatebion ar gael, ond cynhwysir uchafbwyntiau isod yn dadansoddi ymatebion y categorïau Teuluol a Di-deulu yn y lleoliadau Gwledig ac Arfordirol, o ran ymweld ag ardaloedd Gwledig Ceredigion. Dilynwch y linc ym mhob penawd isod i weld y siart pwrpasol.

### *6.3 Canlyniadau'r arolwg a phrif ganfyddiadau*

#### *6.3.1 Amrediadau incwm – Siart 1, Atodiad 1*

O ystyried mai prin oedd yr ymatebwyr a nododd fod eu hincwm teuluol yn fwy na £80,000, gellir dadlau y byddai cryn drafod ynghlych prisiau terfynol y farchnad Anturiau Diwylliannol Tywysedig, ac y bydd angen cynnig gwerth am arian, o ran yr hyn a gynigir. Roedd gan draean yr holl ymatebwyr incwm o £50,000 neu lai, a datganodd chwarter yr holl ymatebwyr fod eu teulu'n derbyn incwm o £50,000 a mwy.

#### *6.3.2 Mannau aros – Siart 2, Atodiad 1*

Y math o lety sy'n fwyaf poblogaidd yw yr hunan-arlwyo, naill ai Airbnb neu dai eraill; hefyd carafannau a chabanau gwyliau. Mae hyn yn hysbys, o nodi'r data sydd gan Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r nifer mannau gwyliau yn y sir. Dengys y cyfryw ddata dŵf aruthrol o ran rhestrau Airbnb yn y sir (lle i +824 gysgu, rhwng 2018 a 2019) gan awgrymu fod y dull darparu hwn yn ffynhonnell gwybodaeth sicr i ymwelwyr, ynglŷn ag Anturiau Diwylliannol Tywysedig.

#### *6.3.3 Maint arhosiad – Siart 3 Atodiad 1*

Mae'r nifer gwyliau'n awgrymu pa rai yw'r prif farchnadoedd ar gyfer teithwyr undydd, pobl seibiau byrion a phobl sy'n sefyll am wythnos. Tra bo'r farchnad undydd yn gref, cafwyd fod nifer helaeth o bobl yn treulio mwy na 3 noson yn y mannau arfordirol, gan awgrymu, felly, fod amser ganddynt o bosib i ymweld â'r ardaloedd Gwledig yn ystod eu harhosiad.

O ran 61.6% o'r holl ymatebwyr, dyma oedd prif wyliau'r flwyddyn, a chyfaddefodd 20.9% pellach mai eu hail wyliau oedd hynny. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd i "aros yn lleol" o ran gwyliau yn ystod y pandemig, pan fyddai modd teithio. Cymysg yw'r farn ymhlith gweithwyr y diwydiant teithio, ledled byd, ynglŷn ag adferiad y farchnad deithio dramor, a'r effaith ar y "gwyliau cartref" a thwristiaeth Wledig. Mae arolygon bwriadau teithio Ymweld â Phrydain yn rhagweld mai anodd fydd darogan maint diddordeb yr amrywiol ystod oed yn 2022. PowerPoint Presentation (visitbritain.org). Mae'r Gymdeithas Dwristaidd Ewropeaidd (CDE) yn rhagweld mai gwan fydd yr adferiad tan 2023. Bydd y diwydiant yn 'fortunate to see full recovery by 2023' Travel Weekly.

Safasai 36% yn yr ardal fwy na 5 gwaith eisoes, a

25.6% pellach rhwng 1-4 gwaith, 38.4% ohonynt yn ymwelwyr newydd. Dengys y ganran arwyddocaol hon fod syniad y "gwyliau cartref" wedi denu ymwelwyr newydd i'r ardal.

### *6.3.4 A ymwelwyd â ardal cefn gwlad? – Siart 4, atodiad 1*

Gyda golwg ar y cynulliadau Teuluol a Di-deulu a gyfwelwyd mewn lleoliadau arfordirol, roedd yna dipyn mwy na'u hanner, 58.5% a 61.5% yn ôl eu trefn, heb ymweld â'r ardaloedd Gwledig y tu hwnt i'r arfordir yn ystod y gwyliau.

### *6.3.5 Pam nad ymwelodd pobl â ardal cefn gwlad? -Tabl 1, atodiad 1*

Daw dwy neges bwysig i'r amlwg o'r data hwn:

Yr arfordir yw'r atyniad pennaf i nifer fawr o'r ymatebwyr ymhob un o'r grwpiau teithio (19 ymateb allan o 65).

Mae angen cyhoeddusrwydd taer ac amgenach gwybodaeth, ar ymwelwyr sy'n mwynhau ar lan y môr, gan eu hannog i dreulio peth amser ym mannau Gwledig y Sir (19 ymateb allan o 65).

### *6.3.6 Argraffiadau am ansawdd – Siart 5.1 – 5.5, atodiad 1*

Gofynnwyd i'r 41.5% a ymatebodd ar ran grwpiau Teuluol a'r 38.5% o'r garfan di-deulu a ymwelodd â'r ardaloedd gwledig, pa mor dderbyniol oedd ansawdd cyfleusterau'r cylch.

At ei gilydd roedd sylwadau teuluoedd arfordirol yn llai cadarnhaol na sylwadau'r teuluoedd Gwledig, hynny'n awgrymu fod yr ymwelydd arfordirol yn edrych drwy perspectif gwananol. Mae yna le i gymell yr ymwelydd arfordirol i ddod i Gefn Gwlad a'i rinweddau pendant.

Canmolwyd yr amgylchoedd a'r naws gwledig i'r cymylau; felly hefyd wedd allanol gyffredinol, taclusrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth lety. Nid cystal y drafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau siopa, adloniant yr hwyr, cyfleusterau dan dô/tywydd gwlyb/chwaraeon – dyfarniad gyda'r isaf roddwyd iddynt hwythau. Mae hyn yn awgrymu diffyg proffil a phrinder gwybodaeth am yr agweddau hyn o'r bywyd gwledig. Ond cafwyd canmoliaeth frwd iawn i'r Llandysul Paddlers gan y teuluoedd oedd yn sefyll yng Nghefn Gwlad – hyn yn awgrymu fod y busnes hwnnw o ansawdd derbyniol.

### *6.3.7 Awgrymu gwelliannau – Tabl 2.1, 2.2 Atodiad 1*

**Sut y gellid gwella'r ardal Wledig, yn ôl grwpiau teithiol, ymatebwyr Gwledig?**

Rhoddwyd rhestr o awgrymiadau i ymatebwyr, er mwyn nodi gwelliannau a chyfle hefyd i gynnig sylwadau eraill.

O 38 ymateb, gofynnodd 9 am wybodaeth bellach, 6 yn dymuno gweld teithiau'n cael eu trefnu, ynghyd â chyfleoedd i fynd am dro, oriau agor mwy hyblyg a gwell trefn o drafnidiaeth gyhoeddus.

**Sut y gellid gwella'r ardal Wledig, yn ôl grwpiau teithiol, ymatebwyr arfordirol?**

Derbyniwyd 120 awgrym gan ymatebwyr arfordirol, 39 yn dymuno gwell gwybodaeth, 16 yn dymuno gweld teithiau'n cael eu trefnu, ynghyd â chyfleoedd i fynd am dro, hefyd "mwy o bethau i'r teulu ac amrywiol ddoniau". Roedd 12 yn gofyn am well cyfleusterau arbenigol a gwell mannau i fwyta ac yfed. 9 yn unig a ddymunai gysylltiadau teithio hwylusach, er i'r dyfarniad cyffredinol ar yr agwedd honno fod yn wael.

### *6.4 Casgliadau – atborth ymwelwyr*

Mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi cefn gwlad a'i hyfrydwch, glendid yr amgylchoedd a'i gwerth am arian. Dyfernir ansawdd y profiad, gan y sawl sy'n ymweld, fel un cadarnhaol ac adeiladol.

Daw'n amlwg, o ystyried canlyniadau'r arolwg, fod yna farchnad ar gael i hybu twristiaeth Wledig yng Ngheredigion. Efallai na fanteisiwyd ar y farchnad honno hyd yn hyn, ond bydd yn her bendant ceisio denu ymwelwyr o'r arfordir a'i atyniadau. Bydd yn hollbwysig cyflwyno Anturiau Diwylliannol Tywysedig mewn modd deniadol, gan wneud hynny'n gyson, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol.

Gellir crybwyll anturiau ac ymdrechion marchnata yng nghyd-destun yr hyn sy'n digwydd eisoes o ran denu twristiaid i Gefn Gwlad. Nid 'gwerthu' Cefn Gwlad yn gyffredinol fydd yr her bennaf yn hyn o beth, ond yn hytrach cynyddu proffil Cefn Gwlad Ceredigion fel cyrchfan newydd, cymharol anghysbell a llai gorlawn o bobl, o gymharu â mannau megis Ardal y Llynnoedd neu Barc Cenedlaethol Eryri.

### *6.5 Arolygon Busnes Siart 6.1 – 6.8, Atodiad 1*

Cafwyd ychydig anhawster derbyn ymatebion i'r holiadur digidol. Fe'i dosbarthwyd i fasdata 55 o fusnesau a awgrymwyd gan Llandysul Pont Tyweli Ymlaen; cadarnhawyd hyn ymhellach gan y Cyngor Cymuned, cyn ei ail-ddosbarthu, ac yna cysylltwyd drwy gyfrwng y ffôn â phobl a ystyrid yn gyfranwyr allweddol. Y canlyniad fu derbyn cyfanswm o 16 ymateb. Fel atodiad i'r holiadur, trefnwyd cyfweld ymatebwyr wyneb yn wyneb gan y tîm ymchwil.

Disgrifiodd 12 (75%) busnes eu hunain fel busnes dwristiaeth neu 'efallai fusnes twristiaeth', a'r 12 busnes yn darparu rhyw atyniad neu weithgaredd neu brofiad. Cafwyd ymateb hefyd gan 4 o adwerthwyr yn nhref Llandysul.

Bychan yw busnesau a chyflogwyr, ac isel eu trosiant. Fel awgrym o hyder busnesau, dengys cwestiwn 8 fod awydd ar y sawl a fu'n rhan o'r arolwg i gynyddu masnach a lefelau busnes yn y dref.

Mae ymatebwyr busnes yn sylweddoli'n iawn pa mor atyniadol yw'r ardal i ymwelwyr, a cheir rhai ohonynt yn nodi pwyntiau penodedig yn Atodiad 2, (yr ymatebion ynglŷn ag ansawdd).

Gan nad yw pawb yn deall beth yn union yw Antur Ddiwylliannol Dywysedig, fe'i disgrifiwyd mewn modd ychydig yn fwy manwl yn y rhagarweiniad yn 1.0.

Er gwaethaf elfen o ansicrwydd ynghylch diffinio Antur Ddiwylliannol Dywysedig, mae yna awydd cyffredinol i fod yn rhan o'r profiad, a mae llawer yn barod i fuddsoddi eu harian eu hunain, ynghyd â'u cefnogaeth ymarferol, o ystyried bod cyllid cydweddol ar gael, neu gyfraniadau o fannau eraill. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a marchnata unrhyw syniad a gynigir.

Wedi pwyso a mesur y gefnogaeth gan fusnesau lleol, mae'n amlwg fod cryn frwdfrydedd gogyfer â'r syniad o Anturiau Diwylliannol Tywysedig fel cyfrwng i **ddatblygu cyfleoedd busnes newydd, i helpu busnesau Gwledig ac adfer cyflogaeth**.

Mae Atodiad 2 yn dangos yr ymatebion a'r sylwadau di-enw gan ymatebwyr busnes, wrth gloriannu ansawdd yr hyn a awgrymwyd.

### *6.6 Cyfweliadau â rhanddeiliaid*

Dewiswyd rhanddeiliaid i gynrychioli'r canlynol: y sector breifat, busnesau twristaidd, Llywodraeth Leol, sefydliadau economiadd a datblygu cymunedol lleol, a chynrychiolwyr twristaidd rhanbarthol.



Cyfwelwyd rhanddeiliaid er mwyn cael eu barn ar y mater, ynghyd ag awgrym o'r hyn y gellid ei wneud ar sail ambell

fenter oedd eisoes ar waith; bydd canfod rhyw nodwedd hynod am Landysul yn allweddol o ran y marchnata, a phobl leol â'u 'bys ar y pyls' fel petai, all wneud hyn a nodi'r ffordd ymlaen.

Dyma a ddaeth i'r amlwg:
Mae yna garfan barod o wirfoddolwyr a swyddogion cyflogedig (lle bo'r cyllid ar gael) yn arwain datblygiadau a mentrau; mae ambell fusnes wedi ymroi gant y cant i'r gwaith ond gwerthfawrogent ychwaneg o gymorth a chefnogaeth. Ceisiwyd cychwyn Cymdeithas Fusnes, eithr aflwyddiannus fu hyn, a barnu wrth y nifer a fynychodd, a'r duedd yw i'r Cyngor Cymuned drefnu digwyddiadau megis yr Ŵyl Nadolig.

Crybwyllwyd syniad y "Goeden Nadolig go chwith" droeon, fel rhywbeth unigryw a llwyddiannus yn y cylch, gan ddenu cryn gysylltiadau cyhoeddus a miloedd o ymwelwyr i'r dref, ond yn bennaf bu'n fodd i aelodau'r cyhoedd fynegi eu hofnau a'u gobeithion am ddyfodol y dref a'i phobl.

Gwerthfawrogir llwyddiant canolfan y Paddlers ger Pont Tyweli, ond mae yna ddyfalu sut y gellid denu'r ymwelwyr hynny i'r dref fel rhywle i rieni a phlant dreulio awr neu ddwy, ac i bawb fwynhau cwpanaid a phryd o fwyd.


Mae'r dref yn arbennig o falch o'i Pharc Coffa, sy'n gaffaeliad gwerthfawr, yn fan agored hardd a diogel, o ran yr afon sydd gerllaw; yn wir, bron na ellid cymharu'r lle i draeth pan fo lefel y dŵr yn addas.

Mae cefnogi'r gymuned yn amlwg yn y dref, a gellir cynnwys yr ymwelwyr yn hyn o beth, gan ofyn – A yw'r digwyddiadau a'r gwyliau'n cael eu marchnata gyda golwg ar y gymuned neu'r ymwelwyr? Ai er budd y gymuned neu'r ymwelwyr y'u cynhelir?

Gwyddai pob rhanddeiliad y buom yn ymweld â hwy, am hanes, nodweddion a photensial Llandysul, a pharod oeddynt i groesawu ymwelwyr i'r dref, gan sylweddoli'r buddion economaidd fyddai'n deillio o hynny. Mae yna ddyhead gwirioneddol i rannu hanes ac asedau'r dref gydag eraill. Cawsom wybod gan y rhanddeiliaid oll am fusnesau ac unigolion gwerth trafod â hwy, gan ychwanegu at ein basdata o weithgareddau.

Ni chafwyd atborth negyddol ynglyn â phresenoldeb ac ymddygiad ymwelwyr, fel ag a gafwyd mewn ambell ardal o Gymru yn ystod cyfnod y pandemig, boed ymweliadau anghyfreithlon yn ystod cyfnodau clo neu ormodedd twristiaid yn ystod yr hâf, gyda bod pobl yn hepgor gwyliau tramor.

Mae Gwesty'r Porth yn gaffaeliad aruthrol; mae yna botensial di-bendraw wrth i drydedd genhedlaeth y teulu fwrw ati i wella'r adeilad. Mae'r bwyd yn wych,



cystal â'r hyn sydd ar gael yn y bwytai gorau oll, gyda phwyslais ar fwydydd lleol a seigiau tymhorol.

Mae yna gyfleoedd heb eu hail i ymwelwyr fedru gweld a phrofi crefftwyr ar eu gorau, o ystyried cwmnïau "gwneuthurwyr" y dref, megis Cariad Glass a Thelynau Teifi, hefyd yr amrywiol gyflenwyr bwyd yn Llandysul a'r cyffiniau.

Mae yna awydd gweld yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig dan arweiniad grŵp aml-genhedlaeth o Dywyswyr o'r gymuned.

### *6.7 Casgliadau Atborth Busnes a Rhanddeiliaid*

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan fusnesau, pan ofynnwyd iddynt yn ystod cyfweliadau ffôn ac ymweliadau personol, i gymryd rhan mewn Anturiau Diwylliannol Tywysedig. Er hyn, gwelwyd awgrym o

"ludded ymgynghorol", a dymuniad yr ymatebwyr, bellach, yw gweld gweithredu'r hyn y buwyd yn ei drafod ers meitin.

Mae yna amryw gyfleoedd i greu teithiau dan themâu arbennig ac i gynllunio teithiau'n gyffredinol, a rhai ohonynt yn unigryw yng nghyd-destun Llandysul, megis ymweld â TelynauTeifi. Yr her yw penderfynu pa adnoddau i'w cynnwys yn yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig, er mwyn rhoi dewis pendant o atyniadau gerbron yr ymwelydd.

Prysur yw busnesau yn paratoi eu cynnyrch, sy'n arwydd pur gadarnhaol o ran yr economi leol; felly bydd angen i geisiadau am gyfraniadau i weithgareddau ymwelwyr gan fusnesau sydd, yn bennaf, yn cynhyrchu, gostio cyn lleied â phosib, yn ariannol ac o ran adnoddau.  Mae'n debyg mai tywyswyr lleol fyddai'n dderbyniol i arwain yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig, gan groesawu'r ymwelydd, yn ogystal, i'r mangreoedd cynhyrchu prysur hyn, megis Cariad Glass, Telynau Teifi, Caws Teifi neu Tregroes Waffles.

Mae yna garfan o wirfoddolwyr parod a diflino sy'n eiddgar i sicrhau gwelliannau yn y dref. Does dim amheuaeth ynglŷn â'u hymdrechion, ond mae angen diamheuol am ychwaneg o bobl, nid i fod o angenrheidrwydd yn rhan o gyd-ymdrech, ond i ddelio â datblygiadau a gwelliannau wrth i'w busnesau elwa – ac fe dry yn gyd-ymdrech yn y pen draw.  Beth bynnag fo'r rheswm, boed bandemig neu ddiffyg cyllid neu ddiffyg cyd-drefnu, mae'r dyhead yno, a mae angen gweithredu parod ac amlwg.

Awgrymodd sawl un o'r ymatebwyr y syniad o hyfforddi grŵp aml-genhedlaeth o drigolion Llandysul yn dywyswyr twristiaid, a hynny'n cynnwys pobl ifainc. Hefyd y canlynol:  gofalu fod y genhedlaeth iau yn ymwybodol o hanes y dref; cynnig croeso lleol o'r iawn ryw i ymwelwyr; ailennyn ymdeimlad o falchder pobl yn eu bro ac yn eu hetifeddiaeth leol; trefnu fod Anturiau Diwylliannol Tywysedig yn medru digwydd yn rheolaidd; creu adnodd o hanesion y dref.   NB - penderfynwyd peidio defnyddio'r term "llys-gennad" gan fod hyn yn syniad sy'n berthnasol i gyrchfan mwy o faint (mae Swyddog Twristiaeth Sir Ceredigion yn arwain ar hynny).

### *6.8 Ymweliad arsylwadol â Llandysul, 29ain Medi i 1af Hydref*

Mae yna ymdeimlad unigryw i'r dref. Mae'r lle'n daclus, does yna ddim sbwriel, a mae yna ddigon o bethau diddorol i'w gweld, â bod gennych amser i sylwi. Yn ddi-os, mae'r lleoliad ar lan yr afon ac ynghanol awelon iachus, yn gaffaeliad sylweddol iawn, yn unigryw o bosib, a digon o le i barcio ceir gerllaw.  Roedd y dref yn dawel iawn adeg ein hymweliad ni, (dydd Mercher, 5-6pm a dydd Gwener 10-11 am). Teimlem, o bwyso a mesur hyn a'r llall, fod i'r dref a'i hamgylchoedd ddigonedd o bosibiliadau ar gyfer Anturiau Diwylliannol Tywysedig. Gellid dadlau mai ei phobl yw ei rhinwedd bennaf. O ran y sawl sy'n mynd heibio ar hap, fel petai, digon rhwydd yw methu ymdeimlo â rhin y dref. Dyna'r her – bachu pobl sy'n mynd o'r tu arall heibio a'u denu i fwrw golwg ar y lle. Lluniwyd cylchdaith ddrafft o brif atyniadau Llandysul a'i hamgylchoedd, sy'n adlewyrchu pa mor unigryw yw'r dref a'r diwylliant Cymreig sy'n rhan annatod ohoni.

Awgrymir y gallai rhai gwelliannau, o'u cyflwyno mewn modd sensitif na fyddai'n tarfu ar naws y dref, fod yn fuddiol e.e. cynllun arafu cerbydau ar y system unffordd, lledu troetffyrdd a nodi croesfannau diogel, arwyddion pafin ac arwyddbyst llwybrau hanes.

### *6.9 Atborth Cynnwys gan Ddefnyddwyr (ACDd)*

Gwnaed ymchwil swyddfa ynglŷn ag ymateb ymwelwyr â Llandysul a'r cylch, ar safleoedd megis TripAdvisor. Mae'n anodd nithio unrhyw beth o'r nifer fechan o adolygiadau diweddar; er hyn, o ystyried adolygiadau blaenorol, mae'n amlwg fod

argraff pobl wedi newid er gwell, o ran synhwyro fod y dref yn fwy taclus a'r pafinau'n lanach. Mae yna ganmoliaeth arbennig iawn i ganolfan y Paddlers, 172 arolwg, yn dyfarnu 5 seren, at ei gilydd (165 ardderchog, 5 da, 1 gwael, 1 echrydus). Mae yna gryn glod hefyd i'r Da Mhille Distillery, ynghŷd â Celtic Country Wines a Rheilffordd Dyffryn Teifi. THE 10 BEST Things to Do in Llandysul - 2021 (with Photos) I Tripadvisor - Must See Attractions in Llandysul, Ceredigion.

I gloi, prin yw'r adolygiadau am Landysul a'r cylch, gydag eithriad neu ddau, mae angen i fusnesau roi mwy o bwyslais ar agwedd ddigidol eu masnach, gan gymell eu cwsmeriaid i gyflwyno'u barn, er mwyn sylweddoli y gall geirda cwsmeriaid fod yn erfyn grymus o ran marchnata'r busnes.

### *6.10 Casgliadau, Arsylwadau ac ACDd*

Yn groes i ran o atborth yr arolwg, mae'n amlwg fod yna bethau yn digwydd yn Llandysul, fod yna amryw yn benderfynol o weld y dref yn ffynnu a bod angen cyfleu i'r boblogaeth ehangach yn ogystal ag i'r ffyddloniaid ymroddedig, negeseuon yn cadarnhau yr hyn a gyflawnwyd eisoes, gan nodi hefyd pa gynlluniau sydd ar y gweill.

### *6.11 Llandysul a'r cyffiniau a'r Pwyntiau Gwerthu Unigryw (PGU)*

Cyn cloi, mae'n bwysig tanlinellu PGU ar gyfer Llandysul; pethau all fod yn gwbl ganolog o ran yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig sydd i'w datblygu, a hefyd yn gloddfa ar gyfer gweithgareddau eraill i hybu'r ardal:

- Yr Afon Teifi a'r Parc Coffa, sy'n safle ddelfrydol (bron fel lle glan môr) ar gyfer digwyddiadau, cael picnic, chwaraeon hwyliog, mewn gair - lle diogel i blant fwynhau eu hunain; yn ogystal mae Gwesty'r Porth, eglwys Tysul Sant, y clwb criced a Llandysul Paddlers yn atyniadau gwych yn y fangre.
- Balchder pobl Llandysul a'r cylch, eu hagwedd gyfeillgar, eu hymroddiad a'u hysbryd cymunedol.
- Cymreictod neilltuol, cain, ardal sydd â chyfartaledd uchel iawn o siaradwyr Cymraeg, o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru a Cheredigion.
- Naws hynafol y dref gydag ambell arlliw o'r cyfoes; ei phensaernïaeth, drysau'r tai a'r siopau, gorchudd "sinc" ambell adeilad, a'r lliwiau.
- Crefftwyr Llandysul, a'r rheiny o ansawdd byd-eang, gwneuthurwyr telynau, cynhyrchwyr bwyd ac ati.
- Cyfleusterau cludo pobl, ymroddiad menter Dolen Teifi, yn arbennig ei dewis o gerbydau carbon-isel.
- Gellir plannu syniad yr Antur Ddiwylliannol Dywysedig yng nghynllun ymwelwyr Ceredigion fel PGU.

## *7.0 Opsiynau argymelledig*

Awgrymir wyth o argymhellion er sicrhau llwyddiant datblygiad a gweithrediad yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig wrth geisio cyrraedd prif amcanion y fenter. Mae'r argymhellion hyn yn berthnasol hefyd i drefi eraill Ceredigion, a gellir felly eu defnyddio yn gyffredinol:

- Sefydlu corff cydlynu.
- Gweithgaredd brandio, i gynnwys PGU, lleoliadau a themâu.
- Datblygu a darparu Anturiau Diwylliannol Tywysedig.
- Ffurfio a hyfforddi grŵp Tywyswyr Twristaidd lleol.
- Llunio basdata Anturiau Diwylliannol Tywysedig yn Llandysul a'r cylch.
- Gwella'r cyfleusterau a'r lleoliadau, yn barod ar gyfer ymwelwyr.
- Ymgyrch farchnata a gwerthu, gan gynnwys sianeli pwrcasu penodedig er sicrhau fod Anturiau Diwylliannol Tywysedig yn digwydd.
- Gŵyl Anturiau Diwylliannol Tywysedig.

### *7.1 Sefydlu corff cydlynu*

Mae angen corf lleol i reoli'r Anturiau Diwylliannol Tywysedig, materion ariannol (cyllid ac incwm), datblygiadau, sicrhau ansawdd a diogelwch, cadwyni cyflenwi a materion cytundebol.

**Awgrymir, er cyrraedd y nod:** ffurfio'r corff cydlynu hwn allan o isadeiledd prosiectau lleol llwyddiannus sydd eisoes yn bodoli, a chreu menter gymdeithasol newydd sydd eiddo'r gymuned, neu gellid ymddiried y gwaith i'r sector breifat.

### *7.2 Gweithgaredd brandio, i gynnwys PGU, lleoliadau a themâu*

Yr hyn sydd ei angen i gychwyn, yw ymarfer brandio, er cefnogi'r marchnata a ddaw wedi hynny. Awgrymwn fod y cyfryw frandio yn adlewyrchu naws a neges y brandiau canlynol a drefnwyd gyda golwg ar brosiectau cenedlaethol, rhanbarthol, lleol neu benodedig.

Antur Gwlad Ceredigion - Ceredigion Country Adventures


Beth am Ceredigion? – What about Ceredigion?

Llwybrau Ceredigion – Ceredigion Routes

Dan wefan sgematig Darganfod Ceredigion gallai Anturiau Diwylliannol Tywysedig eistedd o dan, neu ochr yn ochr â'r is-frandiau a nodir uchod.

Mae'n bwysig nodi datblygiad LlwybrTeifi, sydd ar waith ar hyn o bryd. Felly hefyd, rhaid dal cysylltiad â grŵp datblygu'r fenter hon, a gynrychiolir, o ran ein rhanddeiliaid, gan Lesley Parker.

Telir i brosiect INTERREG, Llwybrau Celtaidd, gryn sylw yn ogystal, yng Ngheredigion, a mae'r brandio Celtaidd sydd ganddynt, yn hytrach na'r Gymraeg, yn elfen amlwg o'u menter. Mae angen ystyried sut




"Anturiau Diwylliannol Tywysedig" yw'r syniad at ddibenion yr astudiaeth ddichonoldeb, a mae angen ystyried priodoldeb y teitl hwn fel brand, a pha mor atyniadol ydyw o ran ymwelwyr. Gellid mabwysiadu disgrifiad fyddai'n taro'n well, megis "Antur Ceredigion", a maes o law fe ddatblygai ei hunaniaeth a'i werthoedd ei hun (gweler pwynt 7.3 isod) fyddai'n taro deuddeg gan yr ymwelydd.

Dyma rai awgrymiadau:

Antur Ceredigion - A Ceredigion Adventure

mae'r brandio ar gyfer Anturiau Diwylliannol. Tywysedig, lle mae galw i'r Gymraeg fod yn gwbl hanfodol, yn cydymffurfio â Llwybrau Celtaidd, neu yn cyfannu'r syniad. Meddylier yn ogystal, am frandiau eraill â chysylltiad â Cheredigion, megis Biosffer Dyfi, ffordd Cymru, Cors Caron, Pumlumon a Mynyddoedd y Cambria. Gall unrhyw frand "Antur Ceredigion" sydd mewn golwg, gydfyw ochr yn ochr â'r mentrau hyn oll, fel cynnyrch yn hytrach na chyrchfan.

**Awgrymir, er cyrraedd y nod:** Argymhellir i dîm

marchnata Cyngor Sir Ceredigion roi cyngor ynglŷn â hyn, hefyd nifer o'r prif randdeiliaid.

### *7.3 Datblygiad a darparu Anturiau Diwylliannol Tywysedig*

Dyma un o brif swyddogaethau'r corff cydlynu, gan gwmpasu cynllunio teithiau, trefnu dyddiadau, ac osgoi neu ychwanegu at ddigwyddiadau. Gellir gosod y cyfryw waith ar gytundeb neu gellir cyflogi staff i fod yn gyfrifol amdano.

Mae gan Antur Ddiwylliannol Dywysedig elfennau hanfodol, fel a ganlyn:

- Croeso Cymreig, cynnes.
- Dathliad rhywbeth sy'n unigryw Gymreig.
- Cydgyfarfod â phobl leol a chyrchu'r un mannau â hwy.
- Bwyd a Diod o ansawdd da.
- Gwybodaeth – byddwch yn gwybod lle y byddwch yn mynd, sut yn union ac am ba hyd.
- Adroddir straeon di-rif.
- Bydd gennych atgofion lu i'w trysori.

**Awgrymir er cyrraedd y nod:** Gellir rhoi cytundeb i sefydliad cymwys a phrofiadol, i gynllunio'n fanwl yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig, gan gynnwys yr elfennau allweddol oll, prisio, pwrcasu hanfodion, cludiant, sicrhau bwyd a diod, hawliau mynediad, diogelwch, yswiriant yn ôl y galw, trefniadau wrth gefn ac ati.

Dyma rhyw lun posib ar Anturiau Diwylliannol Tywysedig:

- **Teithiau tywys, a chludiant wedi ei drefnu**
  Awgrymir trefnu'r rhain yn wythnosol fesul cylch o themâu pedair wythnos, gan nodi eu bod ar gael hefyd i'w harchebu'n arbennig gan grwpiau.
- **Teithiau tywysedig, Tywyswyr yn cyfarfod ymwelwyr mewn mannau penodedig, ymwelwyr yn defnyddio'u cerbydau eu hunain**
  Datblygwyd ar gyfer rhaglen-deithio fer; ymwelwyr â'u cerbydau eu hunain neu yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn unol â thaflenni amser yr olaf.
- **Teithiau audio diarweiniad, ymwelwyr yn lawrlwytho gan ddefnyddio App audio**
  Mae'r rhain wedi eu paratoi gan dywyswyr twristaidd lleol, a gellir eu lawrlwytho am bris rhesymol iawn gan y sawl sydd â'r App perthnasol, e.e. VoiceMap, a ddefnyddir eisoes gan dywyswyr yng Nghymru. Mae yna berthynas glos yn bodoli rhwng perchnogion yr App yn Ne'r Affrig a thywyswyr twristaidd swyddogol Cymru.
- **Teithiau di-arweiniad, ymwelwyr yn lawrlwytho deunydd lliw digidol neu'n darllen taflen brintiedig**
  Dull mwy traddodiadol, yn dibynnu ar daflenni a gweithredu aml-gyfrwng, e.e. Treasure Trails. Gellir cynnwys deunydd arall megis 'Geocaching' neu 'Pokeman Stops and Gym' wrth hysbysebu.

Gall pob fformat fod ar gael yn ddwy-ieithog, Cymraeg a Saesneg a hefyd drwy dywyswyr ieithyddol cymwys mewn ieithoedd megis Almaeneg, Sbaeneg, Ffrangeg neu Eidaleg.

Ceir gwybodaeth bellach am themâu a theithlenni posib yn adran 8.0 isod.

### *7.4 Ffurfio a hyfforddi grŵp Tywyswyr Twristaidd lleol*

Gan weithio law yn llaw ag amrywiol Grwpiau cymunedol yn Llandysul, a hynny'n cwmpasu grwpiau ieuenctid, ysgolion a sefydliadau cymunedol, megis y Gymdeithas Hanes neu Ferched y Wawr, byddai hyn yn syniad ar gyfer datblygu sgiliau tywys twristiaid. Mae'r cyfryw sgiliau'n cynnwys technegau rheoli grwpiau, sgiliau cyfathrebu, diogelwch ac ansawdd, dweud stori a datblygu stori. Byddai'r Tywyswyr ar gael i lywio'r Anturiau Diwylliannol Tywysedig, gan fod yno hefyd i gynnig gwasanaethau Tywys er cefnogi gwyliau a digwyddiadau yn y dref, a'r rheiny'n cael eu hyrwyddo'n amlwg fel digwyddiadau penodedig sy'n rhan o raglenni'r gwyliau. Awgrymodd sawl un

o'r busnesau cynhyrchu lleol a holwyd, megis TelynauTeifi a Cariad Glass, y gwerthfawrogent dywysydd lleol, am y gellid ei hyfforddi i arbenigo yn eu stori a chroesawu unrhyw grwpiau a ddeuai i'w gweithleoedd, gan arbed tarfu'n ormodol ar waith cynhyrchu'r busnes dan sylw.

Rhan bwysig arall o'r syniad hwn fyddai i'r grŵp lunio archif ddiffiniol o hanes Llandysul; gallai hyn fod yn batrwm ar gyfer trefi eraill Ceredigion.

**Awgrymir, er cyrraedd y nod:** Mae yna gwrs sydd ar gael yn hwylus ddigon, sef Lefel 2 fframwaith hyfforddi Tywyswyr Twristaidd Swyddogol Cymru, sy'n ymwneud â Thywys Safle Sengl, yn cynnwys llwybr Taith Gerdded.  Mae'r model hwn yn addas ar gyfer pob un o drefi Ceredigion. Cyfuna'r cwrs sgiliau cyfathrebu, rheolaeth grŵp, agweddau ar ddiogelwch, yn ogystal â chreu swmp o wybodaeth leol a chwilio adnoddau eraill er mwyn llunio taith ddiogel a difyr.

Yn ystod cyfnod hyfforddi tywyswyr lleol gall Tywyswyr sydd eisoes yn gymwys, arwain teithiau. Mae rhai ohonynt yn ddwyieithog, 10 yn gymwys ac yn byw yn lleol yng Ngheredigion a'r siroedd cyfagos, a 34 arall – Tywyswyr bathodyn Glas – o bob rhan o Gymru, yn gymwys i arwain yn y sir, o'u gwahodd i wneud hynny.




### *7.5 Llunio bas data Anturiau Diwyllianol Tywysedig ym mhob tref wledig yng  Ngheredigion*

Mae'n bwysig diweddaru hynt Anturiau Diwylliannol Tywysedig wedi iddynt gael eu cynllunio, hynny er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran argaeledd ambell elfen.

**Awgrymir, er cyrraedd y nod:** Gallai'r corff cydlynu fod yn gyfrifol am restrau Digwyddiadau Diwylliannol Tywysedig, a drefnwyd fel rhan o'r prosiect hwn. Gallai hyn fod yn gyfleuster ar y we, i'w chwilio a'i archebu'n union, er sicrhau gwybodaeth mewn modd digidol a phwrcasu'n ddi-dramgwydd. Gellid paratoi hyn fel cynnwys ar gyfer darparwr megis Viator neu Brofiadau Airbnb, gan fanteisio ar eu sylw a'u trafnidiaeth (rhaid talu comisiwn) neu gellid ei gynllunio fel gwefan annibynnol neu ei gynnwys o fewn i Darganfod Ceredigion a gwe-dudalennau defnyddwyr Ymweld â Chymru.

### *7.6 Gwella cyfleusterau cyffredinol a lleoliadau, yn barod ar gyfer ymwelwyr*

Mae'r argymhelliad hwn yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae angen gwelliannau mewn sawl man, er mwyn i ymwelwyr deimlo'n union fod y lle'n ddymunol, gan greu argarff o dref daclus drwsiadus a chroesawus, e.e. arwyddion, yn unol â chymeriad y dref, yn croesawu ymwelwyr; parcio hwylus ar gyfer cerbydau, a mynediad i fysiau os yn bosib, a'r cwbl yn eglur, diogel a thaclus. Mae angen i ymwelwyr sylweddoli iddynt gyrraedd, fod croeso ar eu cyfer a bod modd iddynt weld, yn hwylus, bopeth sydd gan y dref i'w gynnig. Rhaid ystyried hefyd pa mor ddiogel yw llwybrau cerdded y dref, o ran cyflymder cerbydau, croesfannau diogel a lled y llwybrau. Rhag gosod gormodedd o arwyddion, a fyddai'n tarfu ar y naws gynnes gartrefol, mae nodi hwnt ac yma ar y pafinau yn syniad da, o ran cyfeirio a diogelwch.

Yn ail, wrth arbrofi â gweithgareddau posib ar gyfer taith arbrofol, cafwyd fod cryn frwdfrydedd yn bodoli, eithr mae'n amlwg fod rhai o'r atyniadau yn

barod i groesawu gwahoddedigion, tra bod angen gwelliannau a chymorth ar eraill cyn iddynt fod yn barod i dderbyn ymwelwyr.

**Awgrymir, er cyrraedd y nod:** Bydd menter Adfywio Trefi Gwledig Ceredigion, gyda chefnogaeth cynllun LEADER Cynnal y Cardi, yn cydlynu ac yn galluogi gweithgaredd adfywio ledled chwe thref Wledig Ceredigion (Aberystwyth, Tregaron, Aberaeron, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi). Bydd hyn yn golygu cydweithio â chynrychiolwyr y trefi i'w helpu drwy gynnig syniadau a chwilio ffynonellau ariannol.

Yn ogystal â cheisio gwelliannau ymarferol yn y dref, awgrymir cynnal gweithdai datblygu i alluogi busnesau i gydweithio, i dorri tir newydd ac i benderfynu sut i ddatblygu cyfleusterau a gwelliannau i'w hatyniadau eu hunain, er mwyn denu ymwelwyr. Byddai hyn yn fodd i dynnu pawb o bobl y dref i fewn gan ysgogi cydweithio ymhlith masnachwyr, a gobaith am lwyddiant parhaol, o ganlyniad.

### *7.7 Ymgyrch Farchnata a gwerthu, gan gynnwys sianelau pwrcasu penodedig, er sicrhau fod Anturiau Diwylliannol Tywysedig yn digwydd*

Soniwyd eisoes am fater y brandio. Dylid wedyn, sicrhau fod y brandio a ddewiswyd yn cael ei gymhwyso i bob agwedd o'r Anturiau, wrth eu llunio, eu lansio a'u dwyn gerbron y cyhoedd mewn ymgyrch farchnata o safon.  Prif amcan y cyfan fyddai hyrwyddo'r cynnyrch gerbron y rhai a dargedir h.y. ymwelwyr â'r arfordir  a Chefn Gwlad Ceredigion, grwpiau teuluol a di-deulu. Awgrymir trefnu ymgyrchoedd yn y mannau sy'n denu pobl i sefyll am gyfnodau sylweddol, gan ddefnyddio'r we a'r cyfryngau cymdeithasol i godi hwyl ymlaen llaw wrth iddynt gynllunio'u gwyliau. Mae'n bwysig fod yr hysbysebion yn dangos fod archebu yn ddi-drafferth.

Dylai fod modd archebu gwyliau tan y foment olaf. Rhagwelir angen sybsideiddio rhywfaint, o bosib, os oes prinder cwsmeriaid neu o fethu cwblhau'r trefniadau. Er y dylid ceisio gwneud elw o bob digwyddiad, eu hystyried yn eu crynswth sydd raid, o ran cyfrifon blynyddol neu fisol, rhai yn dangos elw ac eraill golled.

Dylid marchnata gyda golwg ar y gymuned leol, yn ogystal, er mwyn hybu ymdeimlad cadarnhaol cyffredinol wrth groesawu ymwelwyr i'w Hantur Ddiwylliannol.

Dylai pob ymgyrch farchnata gynnwys "galwad i weithredu", gan nodi lle gall yr ymwelydd archebu ei Antur Ddiwylliannol Dywysedig.

**Awgrymir, er cyrraedd y nod:** cyflogi asiantaeth farchnata arbenigol i gynllunio a rhedeg yr ymgyrch ar ei hyd.

### *7.8 Gŵyl Anturiau Diwylliannol Tywysedig*

Wythnos ragarweiniol o Anturiau Diwylliannol Tywysedig wedi eu sybsideiddio, e.e. yn ystod hanner tymor Sulgwyn, dros benwythnos nad yw'n ŵyl Banc, er mwyn bachu'r ddwy farchnad sydd mewn golwg.

**Awgrymir, er cyrraedd y nod:** Awgrymir i ymwelwyr brynu, gyda chymhorthdal, math digidol o fand garddwrn, fel a wisgid mewn gŵyl fwyd, er mwyn iddynt fedru archebu Anturiau Diwylliannol yn ystod yr Ŵyl. Byddai gofyn sicrhau cyflenwad digonol, rhag siomi pobl. Yn y flwyddyn 2023 y byddai hyn, wedi i'r Tywyswyr lleol dderbyn hyfforddiant cyflawn. Nodwn enghraifft o'r gorffennol, pan dderbyniodd Llanberis, Gwynedd gyllid Adfywio Dyffrynnoedd Llechi, a threfnu penwythnosau agored, â'r atyniadau'n rhad ac am ddim – eithr nid digwyddiad rhad ac agored-i-bawb sydd gennym ni mewn golwg.

### *7.9 Prisiau'r argymhellion at ddibenion ariannu*

O ran treuliau rhedeg yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig, awgrymir cymhwyso canran o gyfanswm cost pob antur i dalu am gostau'r corff cydlynu.

Rhaid ystyried hefyd y costau ymylol a ddaw yn sgîl yr eitemau uchod, yn ychwanegol at gostau uniongyrchol rhedeg Antur Ddiwylliannol Dywysedig, fel a ganlyn:

- Gwaith brandio ac ymgyrchoedd marchnata
- Comisiwn gwasanaethau arlinell a sianelau gwerthu
- Staffio a chostau eraill gwasanaethau cydlynu, megis cyfarpar swyddfa ac yswiriant
- Hyfforddi tywyswyr twristaidd lleol
- Costau rheoli Gwyliau neu Ddigwyddiadau
- Costau gwella amwynderau ymwelwyr
- Gosod canran masnachol addas er mwyn sicrhau elw digonol.

Mae Atodiad 4 yn cynnwys crynodeb o'r hyn yr awgrymir ei wneud, pwy sy'n gyfrifol a chostau mynegol.

## 8.0 Themâu a theithlenni

### 8.1 Taith arbrofol

Dyma awgrym am daith arbrofol, yn gyfle i flasu'r ardal. Â'r ymarfer yn un arbrofol, ni fyddai'r Antur yn cynnwys y tri man casglu.

| Teitl | Taith Antur Ceredigion gyda Chaws a Chapel, Dŵr a Gwlân | | |
|---|---|---|---|
| | **Amseru** | **Manylion** | |
| **Cludiant** | | Bws wedi ei logi, gyda meicroffon | |
| **Tywysydd** | | Sylwebaeth o straeon lleol a phethau diddorol | |
| **Man Casglu 1** | 9.00am | Casglu o Aberaeron | |
| **Man Casglu 2** | 9.20am | Casglu o Gei Newydd | |
| **Man Casglu 3** | 9:40am | Casglu o Aberporth | |
| **Arosfan 1** | 10:20am | Caws Teifi, blasu cawsiau, coffi | |
| **Arosfan 2** | 11:15am | Hen Gapel Llwynrhydowen, cyflwyniad i'r Gymru wledig yn cynnwys gwers Gymraeg hwyliog | |
| **Amser rhydd yn Llandysul** | 12:30pm | Llandysul | |
| **Aros i ginio** | | Nyth y Robin, picnic traddodiadol | |
| **Arhosfan 3** | 2:00pm | Gweithgaredd yn Llandysul – rhoi tro mewn kayak neu am dro yn y dref I'w ddilyn gyda Waffl Tregroes a siocled poeth yn Paddlers neu Westy'r Porth | |
| **Arosfan 4** | 3:00pm | Amgueddfa Wlan Cenedlaethol, arddangosfa arbennig – rhaid archebu tocynnau ymlaen llaw | |
| **Gollwng 1** | 4:30pm | Aberporth | |
| **Gollwng 2** | 4:50pm | Cei Newydd | |
| **Gollwng 3** | 5:10pm | Aberaeron | |
| | | | |
| | | **Pris , y person** | **£75** |

### 8.2 Pa mor fforddiadwy

Teimlir y bydd y pris o fewn cyrraedd yr ymwelydd arfordirol di-deulu, a bwrw bod y marchnata'n bwerus ac yn cyrraedd y nod.

O ran y cynulliad teuluol, mae'n bosib bod y pris cyflawn yn uchel, yn enwedig o gofio'r duedd i gostau byw cyffredinol gynyddu tua diwedd 2021.

Argymhellir ystyried pris cystadleuol wedi ei sybsideiddio, ynghyd â thocyn teuluol ar gyfer y categori hwn. Prisiau disgownt i ennyn diddordeb, yn y dyddiau cynnar, fyddai hyn – rhyw 'dynnu Sion i'r wledd' fel petai – gan sefydlu prisiau mwy realistig yn raddol, wrth i'r galw gynyddu. Fel arall, gellid argymell y fersiynau digidol ar gyfer y cynulliad hwn.

Ystyrier cost profiadau dyddiol poblogaidd eraill yng Nghymru, er mwyn cymharu:

| Yr Atyniad | Teulu o 4, plant dros 6 | Cwpwl, di-deulu |
|---|---|---|
| Zip World Caverns Titan 2 | £240 | £120 |
| Oakwood, all-frig | £107.50 | £71 |
| Castell Caerdydd, tocyn dydd | £39 | £29 |
| Twr y Felin, Arfordira | £252 | £126 |
| Mid Wales Tours, taith beic modur ac ystlysgar | - | £450 |
| Mynediad i Castell Maenorbŷr | £15 | £11 |

Er i ni ddymuno, yn y pen draw, gweld yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig yn boblogaidd a hunan-gynhaliol, dwyn pobl i flasu Cefn Gwlad a darparu profiad ardderchog ar eu cyfer yw'r bwriad, gan ysgogi ymateb cadarnhaol yn annog eraill i ymweld, canmol ac ail ddychwelyd i oedi'n hwy.
Mae'n bwysig nodi, o ran yr enghraifft brisio, mai'r costau uniongyrchol yn unig ar gyfer pob Antur, a ddarparwyd.

Ymhlith yr eitemau na chafodd eu prisio, mae'r canlynol: ymarfer brandio a marchnata; hysbysebu arlinell ac fel arall; comisiwn sianelau gwerthu; staffio a chostau cyffredinol eraill, megis offer swyddfa ac yswiriant, perthnasol i wasaneth cydlynu; hyfforddi tywyswyr; costau trefnu digwyddiadau; costau gwella amwynderau ymwelwyr; ychwanegiad masnachol at y pris er mwyn elw.



### *8.3 Syniadau pellach ar gyfer Anturiau Diwylliannol Tywysedig*

Canfod pa un o'r dulliau canlynol sy'n addas ar gyfer yr Anturiau Diwylliannol:

1. Teithiau dan arweiniad, gyda chludiant o le i le
2. Teithiau dan arweiniad, gyda Thywyswyr yn cyfarfod ymwelwyr hwnt ac yma, ymwelwyr yn defnyddio'u cludiant eu hunain
3. Teithiau audio, ymwelwyr yn defnyddio App i'w cyfarwyddo ar eu hynt
4. Teithiau annibynnol, ymwelwyr yn lawrlwytho deunydd digidol neu'n dibynnu ar daflen brintiedig

Ymhlith themâu eraill y gellid eu datblygu yn ardal Llandysul mae'r canlynol:


| Teitl | Prif nodweddion a lleoliadau | Math o daith sy'n addas |
|---|---|---|
| **Blas o Antur Ceredigion** | Y daith arbrofol Caws a Chapel, Dŵr a Gwlân | 1 |
| **Antur Ffydd Ceredigion**, gan ddilyn rhwydwaith eglwysi Mannau Heddychlon, ac yn fwy penodol ar gyfer ardal Llandysul, gan fwynhau straeon am yr ysbrydol a'r unigedd | Hen Capel, LlwynRhydowen, Eglwys St Tysul, Eglwys St Tyfriog Llandyfriog, cyn-wersyll carcharorion rhyfel Eidalaidd yn Henllan, beddadeilau eglwys Llanllwni Maesycrugiau, eglwys Dewi Sant, Capel Dewi | 1, 2, 3 |
| **Antur Gwneuthur Ceredigion**, ymweld â gwneuthurwyr o safon byd a rhoi tro arni eich hunan | Cariad Glass, Telynau Teifi, gweithdy prentisiaid ynghyd â thiwtor lleol yn Pwerdy | 1, 2 |

| Teitl | Prif nodweddion a lleoliadau | Math o daith sy'n addas |
|---|---|---|
| **Antur Fwyd a Diod Ceredigion**. Gwrandewch ar hanes y dewis unigryw o fwydydd a ddatblygir yn Llandysul | Dysgu am a blasu jin, caws, waffls, cinio'n lleol, gwinoedd y wlad | 1, 2 |
| **Antur Cwrw Ceredigion**. "Treuliwch ddiwrnod yn ail-ddarganfod cyfaredd tafarnau gwirioneddol a chwrw o'r iawn ryw, heb orfod poeni am y gyrru." | Dilyn syniad y Llwybr Cwrw Go iawn dynodedig, gweler **https://realaletrail.co.uk/** | 1 |
| **Antur Foduro Ceredigion.** Trowch o'r neilltu ar eich taith Ffordd Cymru, i ganfod ffordd dawelach | Taith yrru VoiceMap o'r arfordir i Landysul a godre DyffrynTeifi; o'r arfordir, taith drwy ran uchaf Dyffryn Teifi. | 3, 4 |
| **Antur Gerddorol Ceredigion.** Dyma hi - gwlad y gân a chartref yr Eisteddfod gyntaf | Ceir disgrifiad o'r Eisteddfod gan gystadleuydd ifanc, ynghyd â blas o'r sgiliau. Yn cynnwys Telynau Teifi, côr meibion a datganiad telyn, a swper. | 1, 2 |
| **Antur Adara Ceredigion.** Ymunwch â phencampwr byd ar wylio adar, Ruth Miller am ddiwrnod o adara yn NyffrynTeifi | Taith dan arweiniad arbenigwyr adar, Ruth Miller ac Alan Davies. **Guided Birdwatching Trips with The Biggest Twitch** | 1, 2 |
| **Antur Ddigidol Ceredigion.** Cadwch y teulu'n ddiddig gan fwynhau ei hoff Appiau a chwaraeon yng nghefn gwlad. | Dilyn llwybr Geocache, Pokemon neu Lwybr Trysor dynodedig. Hys-bys i weithgareddau digidol yn Llandysul | 3, 4 |
| **Antur Gerddi Ceredigion**. Cewch gyfle arbennig i ymweld â gerddi ac ystadau, er mwynhau gwleddoedd natur tymhorol (trefnir mynediad) | Norwood, Farmyard nurseries, Coed y Foel, Mynyddoedd y Cambria, awyr dywyll, Gerddi Plas Alltyrodyn, Gerddi Cilgwyn Llandyfriog, Gerddi'r Dolau, Llanwenog? | 1, 4 |
| **Antur Gelf a Chrefft Ceredigion.** Gwrandewch ar yr hanesion gan weld cynnyrch rhai o artistiaid a chrefftwyr gorau Cymru. | galeri, Arts4Wellbeing, Pwerdy, Sculpture Heaven, Diane Mathias, Pot-sian, Gabrielle's Gallery, cyn-wersyll y carcharorion rhyfel yn Henllan | 1 |
| **Antur ar drywydd pontydd Teifi, Ceredigion.** Dilynwch y pontydd, hynafol a chyfoes, ar un o lwybrau Dyffryn Teifi. | Pont-tyweli, Llanfihangel ar Arth, Pont Allt y Cafan (Pentrecwrt), Pont Henllan, Cenarth (gan gynnwys y Ganolfan Gyryglau), Pont Castellnewydd Emlyn, Pont Felincwrws ger Henllan, Pont Llwni Llanllwni | 1, 3, 4 |
| **Antur ynghylch Plasdai'r Teifi, Ceredigion.** Dysgwch am bensaernïaeth a hanes y cartrefi godidog hyn (trefnir mynediad) | Plas Alltyrodyn, Plas Dolhaidd, Manor Maesycrugiau (Llanllwni), Llanfair (Dwyrain o Landysul), Blaendyffryn Horeb, Cilgwyn Llandyfriog, Castell Howel Pontsian | 1, 3, 4 |
| **Antur Wlân Ceredigion.** Beth yn union yw'r hanes am Gymru a defaid? Y gorfoledd, yr hwrdda a'r trasedïau. | Casglu o Langrannog / Aberporth – Amgueddfa Wlân (Drefach Felindre) – Plasdy Dolhaidd – Rock Mill – dychwelyd i'r arfordir | 1 |

| Teitl | Prif nodweddion a lleoliadau | Math o daith sy'n addas |
|---|---|---|
| **Antur Pobl a Lleoedd Ceredigion.** Dysgwch am gymeriadau Ceredigion a'u milltir sgwâr. | Casglu o Langrannog / Aberporth – Capel Llwynrhydowen - Plasdy Alltyrodyn – Cinio@Llandysul – Eglwys Llandysul – castell Castellnewydd Emlyn – dychwelyd i'r arfordir. | 1, 3, 4 |
| **Antur yng Ngheredigion ar gefn beic, beic modur neu mewn car.** Beth amdani? Gawn ni drefnu taith ar gyfer eich grŵp. | Cynllunir teithiau a'u 'gwerthu' i grwpiau selogion. Annog buddion carbon-isel, teithio gweithredol. | 3, 4 |

Teithiau yw'r uchod sy'n berthnsaol, yn bennaf, i Landysul a'r cyffiniau, ond mae'n bosib i gynllunwyr yr Anturiau wneud trefniadau cyffelyb gogyfer â threfi eraill Ceredigion.

Rhoddwyd prawf ar y themâu hyn a'r teithiau arbrofol, drwy drefnu ambell un a cheisio ymateb pobl. Diau y cyfyngir ar y rhestr weithgareddau, maes o law, rhag i ormod o ddewis greu dryswch. Rhoi amcan o'r nifer helaeth o bosibiliadau yn y cylch bychan hwn yn unig, yw diben y rhestr.



Er fod y dewis sydd ar gael yn eang, a bod nodi'r syniadau bras ar gyfer y dyfodol yn bwysig, bydd angen i'r corff cydlynu benderfynu pa rai i'w cynllunio'n llawn a'u hysbysebu i'r cwsmeriaid addas.

### *8.4 Atborth am syniadau ynghylch Anturiau Diwylliannol Tywysedig*

Paratowyd cyfres o 5 taflen-hysbysebu arbrofol (Atodiad 3), i'w rhannu er mwyn cael ymateb a barn grŵp o ymwelwyr a darparwyr llety gwyliau, ynglŷn â Syniadau'r Anturiau Diwylliannol Tywysedig.

Dyma'r syniadau a gynigiwyd:

1. Antur Ceredigion – taith deuluol yn cwmpasu Pontydd godre Dyffryn Teifi
2. Antur Ceredigion yn cwmpasu Capeli, Caws, Dŵr a Gwlân
3. Antur Ceredigion  mewn Sgiliau Gwledig
4. Antur Ceredigion drwy Gerddoriaeth Gymreig a noson fwyd
5. Antur Ceredigion - Llwybrau Trysor

**Darparwyr llety gwyliau**

Roedd y 9 a ymatebodd yn bur gefnogol ac yn debygol o argymell yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig i'w gwahoddedigion. Fe'u holwyd gan geisio'u barn am yr Anturiau – pa mor fforddiadwy oeddynt. Teimlent oll y byddent yn debygol neu'n debygol iawn, o gymeradwyo'r 5 taith a awgrymwyd, i sylw eu gwahoddedigion. Ystyriwyd y byddai'r syniad mwyaf poblogaidd o'r 5 (Capel, Caws, Dŵr a Gwlân) yn debygol o fod y lleiaf fforddiadwy i'r cwsmeriaid, er y teimlwyd fod y 5, ar y cyfan, yn fforddiadwy.

**Ymatebion yr Arolwg Ymwelwyr**

Pedwar o ymwelwyr yn unig a ymatebodd; roeddent hwy wedi ymateb yn flaenorol i'r arolwg, pan wnaed yr ymchwil wyneb yn wyneb ar y cychwyn. Y syniadau Antur 4 a 5 yn unig, sef Cerddoriaeth Gymreig a Bwyd, a Llwybrau Trysor, a ddenodd gymeradwyaeth yng nghategori 'tebygol iawn' o ran cyfranogi a'r pris. Mae'r ddau syniad yn bur wahanol eu naws, y naill yn ddrutach a mwy dethol, a'r llall yn rhatach ac o fewn cyrraedd grŵp mwy o faint. Ni wnaeth ymatebwyr wahaniaethu rhwng achlysur arbennig a siwrnai gyffredin, o ran bod yn fforddiadwy.

**Trefnydd Teithiau i Gymru**
Holwyd trefnydd teithiau blaenllaw sy'n arfer dod ag ymwelwyr i Gymru, beth oedd ei barn ynglŷn â'r syniadau am yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig.

Teimlai hi, sef Janet Redler, fod y teithiau'n ddeniadol, ond, o ran ei chwsmeriaid hi, sy'n arfer teithio Cymru gyfan neu'r DG ac Iwerddon yn gyfan, fod ardaloedd yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig yn rhy bell o'r prif gyrchfannau – Tyddewi neu Aberystwyth – sy'n arfer eu denu. Er fod digon o leoedd i aros yn y cylch, teimlai Janet Redler fod y ddarpariaeth lety o'r ansawdd gorau ac yn medru croesawu grwpiau teithiol, yn brin yn yr ardaloedd Gwledig. Mae ei grwpiau hi weithiau yn tramwyo'r A487 tua'r gogledd, a bydd modd ystyried oedi i brofi rhai o'r atyniadau y cyfeiriwyd atynt.

## 9.0 Themâu traws-bynciol

### 9.1 Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
Gellir trefnu bod Anturiau Diwylliannol Tywysedig ar gael naill ai drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg. Cyflwynir pob deunydd printiedig yn ddwyieithog. Bydd rhai teithiau'n cynnwys gwersi Cymraeg, a bydd yna wers ragarweiniol, hwyliog ar gyfer dechreuwyr. O ystyried bod Tywyswyr lleol yn cael eu hyfforddi, bydd gobaith gweld mwy o bobl yn cyflwyno yn Gymraeg.

### 9.2 Amgylcheddol a Charbon isel
Bydd ôl-troed carbon teithiau grŵp yn llai nag a fyddai o ran unigolion. Gellir ystyried defnyddio bysiau mini trydan i gludo ymwelwyr i'r mannau Gwledig, a gellid nodi hyn fel PGU. Byddai cynnig cymhorthdal yn symbyliad i bobl ddefnyddio dulliau teithio gweithredol ar gyfer eu Hantur Dywysedig, neu os ydynt yn defnyddio cerbydau trydan.

Mae'r ddau gyflenwr a nodwyd eisoes ar gyfer darparu ciniawau canol dydd, yn defnyddio cynhyrchwyr bwyd lleol, a hysbysebir hyn fel rhan o'u busnes.

Rhoddir pwyslais ar agweddau carbon isel yr Anturiau Diwylliannol Tywysedig, fel pwynt gwerthu.

O ystyried dulliau teithio gweithredol, credir y byddai'n fanteisiol i ardal Llandysul pe gellid dynodi a hysbysebu mwy o lwybrau ar gyfer cerdded a beicio. Mae Llwybr Teifi, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn enghraifft ac yn gyfle, o ran hyn o beth.

### 9.3 Diogelwch
Dylai partneriaid a chyflenwyr sy'n gysylltiedig ag unrhyw ran o'r Anturiau fod ag yswiriant ac asesiadau risg cymwys wrth law. Bydd angen dangos tystiolaeth o hyn fel rhan o'r trefniadau cyffredinol. Mae yna ffurflen ddigidol i'r perwyl hwn ar gael gan Leisure Activity Providers a wahoddir i fod yn rhan o Antur Ceredigion.


Ni fyddai Anturiau Diwylliannol Tywysedig Ceredigion yn ffurfio pecyn neu drefniant teithio cysylltiedig dan Reoliadau Teithio parod a Threfniannau Teithio cysylltiedig 2018, gan fod y gwasanaethau teithio a ddarperir, mewn grym am lai na 24 awr. The Package Travel and Linked Travel Arrangements Regulations 2018 , Tud 6.

Wrth baratoi'r astudiaeth ddichonoldeb hon, canolbwyntiodd y tîm prosiect ar yr economi ymwelwyr y tu hwnt i'r pandemig. Ar hyn o bryd, deil rheolau Covid a rheoli risg mewn grym, a rhaid trefnu popeth yn unol â chynlluniau rheoli Coronavirus Llywodraeth Cymru, fel sy'n hysbys a pherthnasol.

### 9.4 Cymuned a Llesiant
Tra'n paratoi teithiau a gweithgareddau eraill, dylid ymgysylltu â'r gymuned gan ei hysbysu o'r hyn sydd ar y gweill. Dylai'r corff cydlynu ystyried pob gweithgaredd yn unol â saith amcan llesiant Cymru, a ddatgenir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## *10. Cyfnodedd a Graddfeydd Amser*

Fel y nodwyd, mae yna angen dybryd yn y dref i weld datblygu o ryw fath, ac yna gweithredu i ddilyn. Hoffai tîm y prosiect ymateb i hyn, ond rhaid ystyried lefelau Covid ar yr un pryd, ynghyd â chyngor yr awdurdodau lleol ynglŷn â threfnu gweithgareddau, ddiwedd 2021. Dengys y siart isod raddfa amser sylfaenol ar gyfer cyfnodau pellach y fenter, a bwrw bod yr astudiaeth ddichonoldeb hon yn dderbyniol neu yn rhannol felly.




## *11.0 Casgliad yr Astudiaeth Ddichonoldeb*

O fwrw golwg derfynol ar yr Astudiaeth Ddichonoldeb, penderfynodd yr ymgynghorwyr fel a ganlyn: gyda bod marchnad bendant a bywiog o ymwelwyr s'yn sefyll yng Nghymru, toreth o elfennau ar gyfer Anturiau Diwylliannol Tywysedig, sianelau parod ar gyfer marchnata a gwerthu, ewyllys gymunedol (ac unigryw o bosib) tref Llandysul i weld llwyddiant y fenter drwy drefnu llu o weithgareddau ar gyfer ymwelwyr – yna, gyda chyllid digonol, cefnogaeth staff, a darpariaeth o safon, dylai'r Anturiau Diwylliannol Tywysedig yng Nghefn Gwlad Ceredigion ffrwytho a ffynnu i'r eithaf.

Mae Wales Best Guides Enterprises Ltd. yn diolch o galon i bawb am eu croeso ac am gyfrannu at yr astudiaeth hon, yn rhithiol, neu wyneb yn wyneb.

**Manylion cyswllt:**
Ar ran y Cyfarwyddwyr

**Wales Best Guides Enterprises Ltd.**
**Rhif cwmni 13200857**
**Cyfeiriad Cofrestredig:**
**87 Cwm Road, Dyserth, Rhyl**
**Sir Ddinbych LL18 6HR**
**Ebost: walesbestguidesenterprises@gmail.com**
**Tel: 07717297481**

Wales Best Guides - Wales Official Tourist Guides Association


**Lluniau:** © Hawlfraint y Goron / © Crown copyright (2022) Cymru Wales, G Huw Davies, Christine Evans, Amanda Whitehead, Steve Griffin, Ieuenctid Tysul a Lesley Parker.


*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*


## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*


### Ystodau incwm - Siart 1, Atodiad 1

O ystyried mai prin oedd yr ymatebwyr a nododd eu hincwm teuluol yn fwy na £80,000, gellir dadlau y byddai cryn drafod ynghylch prisiau terfynol y farchnad Anturiau Diwylliannol Tywysedig, ac y bydd angen cynnig gwerth am arian, o ran yr hyn a gynigir.

















### Llety yr ydych yn aros ynddo – Siart 2, Atodiad 1

Y math o lety sy'n fwyaf poblogaidd yw yr hunan-arlwyo, naill ai Airbnb neu dai eraill; hefyd carafánnau a chabanau. Mae hyn yn hysbys, o nodi'r data sydd gan Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r nifer mannau gwyliau yn y sir.




*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*

### Hyd yr arhosiad – Siart 3 Atodiad 1

Mae'r nifer gwyliau'n awgrymu pa rai yw'r prif farchnadoedd ar gyfer teithwyr undydd, pobl seibiau byrion a phobl sy'n sefyll am wythnos. O ran 61.6% o'r holl ymatebwyr, dyma oedd prif wyliau'r flwyddyn, a chyfaddefodd 20.9% pellach mai eu hail wyliau oedd hynny. Roedd 36% wedi aros yn yr ardal fwy na 5 gwaith o'r blaen, 25.6% ychwanegol rhwng 1-4 gwaith a 38.4% ohonynt yn ymwelwyr newydd.















### A ydych wedi ymweld â'r ardal wledig yn ystod eich arhosiad? – Siart 4, Atodiad 1

O'r cynulleidfaoedd teuluol a di-deulu a gyfwelwyd mewn lleolia- dau arfordirol, roedd yna dipyn mwy na hanner heb ymweld â'r ardaloedd gwledig, y tu hwnt i'r arfordir, yn ystod eu harhosiad.



*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*

**Pam nad oedd pobl wedi ymweld a'r ardaloedd gwledig?**
**Tabl 1, Atodiad 1**

Rhesymau dros beidio â mynd i'r ardal wledig, yn ôl y math o grŵp teithio – Ymatebwyr arfordirol.

**Tabl 1**
Daw dwy neges bwysig i'r amlwg o'r data hwn:

Yr arfordir yw'r atyniad pennaf i nifer fawr o'r ymatebwyr ymhob un o'r grwpiau teithio

Mae angen cyhoed-dusrwydd taer ac amgenach gwybodaeth ar ymwelwyr sy'n mwynhau yr ardal arfordirol i'w hannog i dreulio peth amser ym mannau gwledig y Sir.

| | Teulu gyda plant o dan 5 oed | Teulu gyda plant o 6 – 12 oed | Teulu gyda pobl ifanc yn ei harddegau | Grwp di-deulu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwell gennyf aros ar y traeth | 3 | 3 | - | 2 | 8 |
| Mae popeth sydd ei angen arnom wrth yr arfordir | 2 | 5 | 3 | 9 | 19 |
| Heb wybodaeth/ cyhoeddusrwydd | 2 | 7 | 4 | 6 | 19 |
| Dim eisiau teithio | 1 | - | 2 | - | 3 |
| Mae'r ardal wledig yn ddrud | 1 | - | - | 1 | 2 |
| Diffyg cyfleusterau yn yr ardal wledig | 1 | - | - | 2 | 3 |
| Dim byd i'r teulu ei wneud yn yr ardal wledig | - | - | 1 | - | 1 |
| Dim rheswm wedi'i nodi | | | | 1 | 1 |
| Dim ond yn teithio trwy'r ardal | | | | 4 | 4 |
| Dim digon o amser | | | | 5 | 5 |


*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*


**Argraffiadau o ansawdd – Siartiau 5.1 – 5.5, Atodiad 1**

Gofynnwyd i'r 41.5% o ymatebwyr ar ran grwpiau teuluol a'r 38.5% o ymatebwyr ar ran y grwpiau di-deulu a ymwelodd â'r ardaloedd gwledig pa mor dderbyniol oedd ansawdd y cyfleusterau'r ardal.


**Siart 5.1**




**Siart 5.2**





**Siart 5.3**




*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*

**Siart 5.4** Q19 - Di-deulu Gwledig - Sgôr cyfartalog cyfleusterau gwledig o 1 gwael i 5 rhagorol




**Siart 5.5** Cyfanswm yr Arolwg - Sgôr cyfartalog cyfleusterau gwledig o 1 gwael i 5 rhagorol



*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*

**Gwelliannau a awgrymwyd – Tabl 2.1, 2.2 Atodiad 1**

Sut y gallai'r ardal wledig gael ei gwella yn ôl y grwpiau teithio? – Ymatebwyr Gwledig

NB: Nid oedd ymatebion i'r arolwg yn yr ardal wledig gan deuluoedd gyda phlant dan 5 oed.

**Tabl 2.1 - Ymatebwyr Gwledig**

| | Teulu gyda plant 6 –12 oed (Cyf. 2) | Teulu gyda pobl ifanc yn ei harddegau (Cyf. 2) | Grwp di-deulu (Cyf. 2) | Ymatebion i "awgrymiadau eraill" | Cyf. |
|---|---|---|---|---|---|
| Mwy i'r teulu o bob gallu | 1 | | 2 | | 3 |
| Gwell cyfleusterau arbenigol | 2 | 1 | | 1 | 4 |
| Teithiau a theithiau cerdded wedi'u trefnu | 1 | 1 | 4 | | 6 |
| Gwell gwybodaeth | | 2 | 3 | 4 | 9 |
| Gwell llefydd i fwyta / yfed | 1 | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Gwell oriau agor | 1 | | 4 | 1 | 6 |
| Gwell cysylltiadau trafnidiaeth | 1 | | 5 | | 6 |

**Tabl 2.2 - Ymatebwyr Arfordirol**

| | Teulu gyda plant dan 5 oed (Cyfanswm 6) | Teulu gyda plant 6 – 12 oed (Cyf.13) | Teulu gyda pobl ifanc yn ei harddegau (Cyf. 8) | Grwp di-deulu (Cyf. 10) | Ymatebion i "awgrymiadau eraill" | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwy o bethau wneud am y diwrnod | | 5 | 1 | 5 | | 11 |
| Mwy i'r teulu o bob gallu | 3 | 3 | 6 | 4 | | 16 |
| Gwell cyfleusterau arbenigol | 1 | 3 | 3 | 6 | | 13 |
| Teithiau a theithiau cerdded wedi'u trefnu | 2 | 2 | 6 | 6 | | 16 |
| Gwell gwybodaeth | 4 | 7 | 6 | 19 | 3 | 39 |
| Gwell llefydd i fwyta / yfed | 1 | 1 | 3 | 5 | 2 | 12 |
| Gwell oriau agor | | 1 | 1 | 3 | | 5 |
| Gwell cysylltiadau trafnidiaeth | 1 | | 1 | 5 | 2 | 9 |

*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*

### Arolygon Busnesau Siart 6.1 – 6.8, Atodiad 1


Cafwyd ychydig o anhawster i dderbyn ymatebion i'r holiadur digidol busnes. Fe'i dosbarthwyd i fasdata o 55 o fusnesau a awgrymwyd gan Llandysul Pont Tyweli Ymlaen, a gadarnhawyd gan y Cyngor Cymuned. Fe'i ail-dosbarthwyd, ac yna cysylltwyd grwy gyfrwng y ffôn i'r rhai a ystyriwyd yn gyfranwyr allweddol. Yn dilyn hyn derbyniwyd cyfanswm o 16 ymatebion wrth y busnesau. Dilynwyd yr holiadur gyda chyfwelia-dau personol ymatebwyr gan y tim ymchwil.

Disgrifiodd 12 (75%) busnes eu hunain fel busnes dwristiaeth neu "efallai" fusnes twristiaeth, a'r 12 busnes yn darparu rhyw atyniad, gweithgaredd neu brofiad. Cafwyd ymateb hefyd gan 4 adwerthwr yng nghanol tref Llandysul.

Bychan yw busnesau a chyflogwyr, ac isel eu trosiant. Fel awgrym o hyder busnesau, dengys cwestiwn 8 fod awydd ar y sawl a fu'n rhan o'r arolwg i gynyddu masnach a lefelau busnes yn y dref.


### Siart 6.1

Q2 - Os ateboch YDW yn Q1, pa wasanaethau ydych chi'n eu darparu / cyflenwi? Ticiwch gynifer ag sy'n briodol





### Siart 6.2

Q6 - A ydych chi'n cyflogi pobl? (heblaw chi eich hun).





Q7 - Beth yw trosiant eich busnes?




### Siart 6.3

Q8 - Sut ydych chi'n teimlo am y lefelau busnes cyfredol yn ystod haf 2021, ers 7 Awst?




*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 1 - Siartiau a thablau ymchwil*

Mae ymatebwyr busnes yn sylweddoli'n iawn pa mor atyniadol yw'r ardal i ymwelwyr, a cheir rhai ohonynt yn nodi pwyntiau penodedig yn Atodiad 2 (yr ymatebion ynglyn ag ansawdd).

**Siart 6.4**


Q9 - Beth ydych chi'n teimlo yw prif apêl yr ardal hon i ymwelwyr? Ticiwch bopeth sy'n berthnasol




Gan nad yw pawb yn deall beth yw Antur Diwylliannol Dywysedig fe'i disgrifiwyd mewn modd ychydig yn fwy manwl yn y rhagarweiniad yn 1.0


**Siart 6.5**

Q13 - A ydych chi'n deall beth mae Antur Ddiwylliannol o dan arweiniad yn ei olygu?





**Siart 6.6**

Q15 - A hoffech chi i'ch busnes fod yn rhan o Antur Ddiwylliannol o dan arweiniad?





**Siart 6.7**

Q16 - A fyddech chi'n barod i fuddsoddi arian eich busnes i sefydlu Antur Ddiwylliannol o dan Arweiniad?




**Siart 6.8**

Q17 - A fyddech chi'n barod i fuddsoddi "adnodd gyfatebol" wrth sefydlu Antur Ddiwylliannol dan Arweiniad e.e. darparu man cyfarfod, cyfleusterau ar gyfer newid?



*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 2 - Sylwadau gan ymatebwyr i'r arolwg busnes*

### *Q8A – Sylwadau eraill (wedi'i cyfieithu) - Sut ydych chi'n teimlo am y lefelau busnes cyfredol yn ystod haf 2021, ers 7 Awst?*

“Rydym yn alluogwyr ac yn gweithio ochr yn ochr â busnesau ar draws amrywiol sectorau. Rydym ni'n helpu i gefnogi a chynnal gwyliau cerdded, cynnal digwyddiadau sy'n denu pobl leol ac ymwelwyr i'r dref, e.e., penwythnos garddio, Ffair Nadolig, ffeiriau haf ac ati.”

“Anodd rhagweld a chynllunio staff, yn unol â hynny mae gennym hefyd ddau wirfoddolwr ag anghenion ychwanegol.”

“Fel busnes, rydym wedi treulio llawer iawn o amser yn mynd drosodd a throsodd yr hyn sydd ei angen ar Landysul - treuliwyd llawer iawn o amser gyda Ben Lake dros y 4 blynedd diwethaf fel ymarfer trafodaethau, ac roedd yn wych gweld cymaint o bobl o'r pentref wedi ymgysylltu â hyn .... yn anffodus, y teimlad nawr yw 'nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud' ac felly mae blinder wedi ymsefydlu ac mae pobl yn ei chael hi'n anodd i fod yn frwdfrydig.”

“Fodd bynnag, gallai bod yn brysur gyda gwasanaethau ar-lein elwa o fwy o ymwelwyr i'r dref i gynnal adeiladau'r stryd fawr.”

“Angen help i farchnata ein digwyddiadau a'n gwasanaethau.”

“Mae gennym brosiect peilot Llysgennad Twristiaeth cymunedol yr hoffem ei ystyried a'i ddatblygu yn Llandysul.”

“Mae twristiaeth yn elfen o arallgyfeirio amaeth. Ffermio yw ein prif fusnes.”

Rydym wedi bod yn brysur iawn ac yn ddiolchgar am y busnes.”

### *Q9A - Nodwch "Gweithgareddau penodol eraill"*

“Llwybrau cerdded da, y Ganolfan Padlwyr sydd eleni wedi darparu gweithgareddau ar gyfer pob oed a gallu.”

“Mae ein cyrsiau gwydr lliw a’n horiel newydd, Llandysul Paddlers yn atyniad mawr, fel y mae’r Arcêd. Mae Llandysul hefyd yn gartref i Ganolfan Delynau Cymru ac mae Telynau Teifi, Y Pwerdy ac Y Porth hefyd yn lleoedd lleol pwysig yn ogystal â physgota. Mae nifer fawr o unigolion creadigol a cherddorol yn yr ardal.”

“Mae gan Geredigion nifer o gynhyrchwyr bwyd a diod o fri sy'n ymfalchïo mewn cynhyrchu'n gynaliadwy. Mae gan lawer ohonynt atyniadau i ymwelwyr. Yn ein hachos ni gall pobl ymweld â'n siop fferm a chael blasu yn Oriel Da Mhile.”

### *Q10 - Beth ydych chi'n teimlo yw'r cyfleoedd i dyfu'r economi ymwelwyr yng nghefn gwlad Ceredigion?*

“Mae angen hunaniaeth newydd yn Llandysul a Phont Tyweli. Mae bellach yn lle i ymweld ag ef ar gyfer anturiaethau, canŵio, nofio, criced, man chwarae i blant, ardal bicnic gyda byrddau, lle gwirioneddol i aros ac ymlacio, gyda siop lyfrau dda gyda lle coffi/te.
Mae gennym ni ddigonedd o gyfleusterau tecawê ond mae angen mwy o fwytai da yn ystod y dydd, yn enwedig ar gyfer swpera arbennig.

*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

### *Atodiad 2 - Sylwadau gan ymatebwyr i'r arolwg busnes*

"Mae rhai pobl eisiau ymweld â'r traethau a threfi glanmor, eraill eisiau crwydro y mewndir i ddysgu a mwynhau diwylliant a threftadaeth Cymru.
"O'n profiad ni o bobl sydd wedi aros yn ein fflat gwyliau dros yr 8 mlynedd diwethaf, mae nhw wrth eu bodd â Llandysul a'r cyfan sydd ganddi i'w gynnig. Gwerthfawrogant allu ymweld â'r traethau prysur a dychwelyd i dawelwch tref fechan wledig. Gwerthfawrogant hefyd fod Llandysul mewn lleoliad da i ymweld â phob rhan o Gymru.
"Darparwch wybodaeth am y bwyd a gynhyrchir yng Nghymru.
"Darparwch wybodaeth am yr holl gynnyrch arall a wnaed yng Nghymru ee. celf, cerameg gwydr lliw, telynau, ac ati."

"Y ffactor ymhlyn ag aros dros dro, mae angen gwneud mwy i farchnata Ceredigion Wledig (Twristiaeth Cymru) a'r fforymau twristiaeth rhanbarthol amrywiol, y ddau ohonynt angen cyllid gan y llywodraeth i hybu hyrwyddo. Yn anffodus, mae Covid ar un olwg wedi cynorthwyo hynny gyda theuluoedd a fyddai'n teithio dramor yn penderfynu aros o fewn Ynysoedd Prydain oherwydd cymhlethdodau teithio i rywle arall."

"Lle diwylliannol a hanesyddol. Ardal o ddiddordeb arbennig."

"Mwy o amlygrwydd o'r hyn sydd gan bob tref/ardal i'w gynnig drwy brofiad pwrpasol i ymwelwyr."

"Dylid hysbysebu Dyffryn Teifi fel cyrchfan Angen mwy o atyniadau dan do gan y byddai'n ymestyn y tymor twristiaeth."

"Mae potensial enfawr i'r ardal, dim ond y dull cywir sydd ei angen."

"Gwella'r canlynol - cyfleusterau parcio ceir, hysbysebu, cyfleusterau ystafell newid ar gyfer chwaraeon awyr agored, llwybrau beicio, llwybrau canŵio."

"Mae nifer y bobl nad ydynt am fentro mynd dramor oherwydd cyfyngiadau ac apêl eang gweithgareddau yn yr ardal."

"Trefnu digwyddiadau."

"Mae'n edrych yn debyg y bydd arosiadau gyda ni am rai blynyddoedd i ddod. Yma mae gan Geredigion gyfle gwych i gynyddu nifer y safleoedd glampio o safon a fydd yn denu ymwelwyr a fydd yn dod â refeniw mawr sydd ei angen i'r gymuned."

"Manteisio ar lonyddwch gwledig yr ardal, a'i hyblygrwydd rhwng yr arfordir a'r opsiynau mewndirol mor hygyrch i ymwelwyr e.e. mae llwybr yr arfordir yn ffinio â cherdded gwledig, menter Llwybr Teifi."

"Efallai darparu teithiau cerdded tywysiedig gyda gwybodaeth."

"Gan rannu'r newyddion bod Ceredigion yn gyrchfan gwych i gerddwyr – fel rhan o'r grŵp Croeso i Gerddwyr rydym yn gweithio ar lwybr troed pellter hir Llwybr Dyffryn Teifi ar hyd y Teifi. Mae'r math hwn o fenter yn wych i'n hardal gan ei fod yn dod â phobl i mewn i'r ardal a fydd yn gallu mwynhau'r darpariaeth cerdded gwych yma."

*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Atodiad 2 - Sylwadau gan ymatebwyr i'r arolwg busnes*

### *Q11 - Beth, yn eich barn chi, yw'r rhwystrau i dyfu'r economi ymwelwyr yng Ngheredigion wledig?*

"Mae angen i ardaloedd gwledig farchnata a rhoi cyhoeddusrwydd i holl nodweddion bywyd gwledig. e.e.hanes y diwydiant gwlân ledled Cymru, yr adeiladau rhestredig a'u hanes, y straeon niferus am fywyd ffermio a llawer mwy. Mae hyn yn rhwystr posibl i'r bobl nad ydyn nhw'n ymwybodol o sut i gael gafael ar wybodaeth."

"Diffyg adnoddau ariannol i farchnata'r ardal yn broffesiynol, fel defnyddio hysbysebion teledu ac ati. Mae'r bobl sydd wedi ymweld yn canmol y cynnig, croeso ac ati."

"Trafnidiaeth gyhoeddus a diffyg marchnata ardaloedd fel Llandysul."

"Diffyg gwybodaeth, diffyg brwdfrydedd, mae busnesau wedi blino ar trafodaethau ac eisiau gweithredu rhagweithiol ar unwaith i weld gwelliant."

"Diffyg gwestai o safon am brisiau rhesymol."

"Diffyg buddsoddiad a diffyg gweledigaeth. Nid oes unrhyw reswm na allai Ceredigion fod mor llwyddiannus â Cernyw."

"Ddim yn defnyddio'r dull cywir
Mae trafnidiaeth gyhoeddus ac arwyddion yn Llandysul yn wael.."

"Cyfathrebu."

"Cynllunio ar gyfer mwy o safleoedd Glampio. Yn enwedig Pods o ansawdd uchel."

"Gan frwydro yn erbyn twristiaeth arfordirol naturiol, dylem geisio gweithio ochr yn ochr, rhyng-gysylltu a rhwydweithio â'r hyn sydd eisoes yn atyniad."

"Sgiliau entrepreneuraidd / llyfrau tywys llwybr / byrddau gwybodaeth."

"Ddim yn ymwybodol o rwystrau."

"Mae sail trafnidiaeth gyhoeddus wael yn golygu bod pawb sy'n dod i'r ardal yn gorfod dod mewn car. Nid oes unrhyw ddewisiadau arall go iawn ac felly bydd ein ffyrdd bach yn cael eu effeithio cyn bo hir wrth i nifer y twristiaid gynyddu. Hefyd pellter o brif ganolfannau poblogaeth a diffyg gwybodaeth am yr ardal."

### *Q12: Pa gefnogaeth sydd ei hangen?*

"Mae arnom angen llysgenhadon gwybodus cadarnhaol (ym mhob peth sy'n ymwneud â'u hardal) â chysylltiad â'r diwydiant twristiaeth."

"Mae angen unigolion cefnog a phroffesiynol abl i helpu i hyrwyddo'r ardal, gwneud mynediad yn haws wrth ganiatáu defnyddio arwyddion twristiaeth brown. Llyfrynnau unigol yn y dref sy'n cynyddu y sylw at y cynnig ym mhob un o'r trefi a mannau twristiaeth yng Ngheredigion. Dod â darparwyr ynghyd yn y cymunedau hyn i ddatblygu pecyn o'r hyn y gellid ei wneud yn ystod hanner diwrnod, diwrnod llawn neu os ydyn nhw'n defnyddio'r dref fel y ganolfan am egwyl wythnos neu bythefnos."

"Syniadau marchnata a datblygu wedi'u dilyn gan gamau gweithredu yn hytrach na syniadau

*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

***Atodiad 2 - Sylwadau gan ymatebwyr i'r arolwg busnes***

sy'n parhau fel syniadau yn unig.”

“Person allgymorth ymroddedig sy'n gallu cyd-lynu syniadau a'u gweithredu.”

“Annog gwestai presennol i fuddsoddi a chynghori pa grantiau sydd ar gael ar eu cyfer.”

“Marchnata'r Sir i'w thrigolion ei hun fel y gallant ymfalchïo yn yr hyn sydd yma. Marchnata i ddenu buddsoddiad.”

“Peth cyllid ariannol, rhywfaint o ddatblygiad cymunedol go iawn ar lawr gwlad, rhywfaint o ddychymyg a meddwl tu allan i'r bocs. rhai gwahoddiadau i rannu 'dychmygion gwyllt', gan weithio gyda photensial a beth allai fod.”

“Cronfeydd i helpu i wella'r cyfleusterau.”

“Gwell trafnidiaeth gyhoeddus ac arwyddion ar y ffordd osgoi a ger y busnes padlio yn cyfeirio pobl i'r ardal siopa.”

“Ddim yn gwybod.”

“Mwy o hyblygrwydd wrth gymeradwyo cynllu-nio ar gyfer Podiau Glampio o ansawdd uchel.”

“Datblygu hysbysebion addas trwy dwristiaeth Ceredigion i annog mwy o gyfleoedd yn y trefi marchnad wledig.”

“Datblygu’r uchod.”

“Ddim yn gwybod.”

“Datblygu cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus.”

***Q12A - Pwy ydych chi'n teimlo ddylai ddarparu'r gefnogaeth hon?***

“Y Bwrdd Twristiaeth.”

“Twristiaeth Cymru, gyda chymorth cyrff twristiaeth rhanbarthol, y Cyngor Sir a chael rhywfaint o gefnogaeth gyfyngedig gan y Cynghorau tref a chymuned yn ogystal â'r sector ei hun. Dylai pob un ohonom fod yn rhan o greu'r  talen bwrpasol ac yna “canu o’r un dudalen” i ddenu'r bobl leol (ar draws Ceredigion) ac ymwelwyr.”

“Cysylltiadau twristiaeth y Cyngor Sir.”

“Twristiaeth Ceredigion, Cynulliad Cymru.”

“Cynghorau lleol.”

“Ddim yn gwybod.”

“Y rhai sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny: Ewrop / LICC / cyllidwyr â chymhellion arian hadu.”

“Y Cyngor Sir.”

“Adran Twristiaeth Cyngor Sir Ceredigion, a Llywodraeth Cymru.”

“Sector twristiaeth Ceredigion.”

“Y Bwrdd Twristiaeth / contractwyr annibynnol.”

“Ddim yn gwybod.”

“Mae mater hyn yn y parth cyhoeddus felly Llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru.”
“Tourist board / independent contractors.”

*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

***Atodiad 2 - Sylwadau gan ymatebwyr i'r arolwg busnes***

***Q14 - Sut ydych chi'n teimlo y gall y busnesau a'r gwasanaethau yn ardal Llandysul ddarparu Anturiaethau o'r fath orau?***

"Cyhoeddusrwydd a marchnata, ar lafar gwlad a llysgenhadon ym mhob ardal."

"I ddechrau, trwy gydweithio i ddenu pobl leol ac ymwelwyr i'r dref, yna gall y busnesau twristiaeth a'r sector busnes ehangach yn y stryd fawr a thu hwnt elwa o'r nifer ychwanegol o ymwelwyr."

"Pecynnau wedi'u teilwra i grwpiau arbennig o ymwelwyr."

"Mae angen egluro'r cysyniad cyn y gallaf ateb hyn."

"Siarad â sefydliadau eraill o fewn yr ardal / Rhannu syniadau."

"Trwy greu gweithgareddau penodol neu agor eu siopau, efallai y tu allan i oriau i gyd fynd gyda'r Antur."

"Bydd y cyfan yn dibynnu ar sut mae mynd ati a'r hyn y dywedir wrthynt ei wneud neu'r beth a gynigir iddynt ei wneud."

"Gyda digon o rybudd a threfn."

"Rhoi cyfleoedd o fewn busnes i rwydweithio â chyfle e.e. hysbysebu'r pwnc neu'r rhwydwaith yn uniongyrchol trwy ddarparu agwedd a all fod yn rhan o'r antur e.e. trwy fwyd, diod neu fwy."

"Mae angen coladu deunydd adnoddau."

"Ddim yn siŵr beth ydyw felly ni all ymateb."


*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Taflenni arbrofol Antur Diwylliannol Tywysedig a ddefnyddir mewn siartiau ymchwil a data*


Antur 1 - taith deuluol yn cwmpasu pontydd godre
Afon Teifi





Q5A - A fyddech chi'n debygol o hyrwyddo Taith 1 Antur Ceredigion i'ch gwesteion?





C6A - Ydych chi'n meddwl y byddai'ch gwesteion yn debygol o fforddio'r gweithgaredd ar Daith 1?




Q1 – Pa mor debygol fyddech chi o ddefnyddio'r daith antur wledig hon pan fyddwch chi'n aros ar hyd arfordir Ceredigion?





Q3 - Pe byddem yn prisio'r Antur hwn am £9.00 ar gyfer y daith yrru, a fyddech yn debygol o dalu'r swm hwn am wibdaith wyliau




*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Taflenni arbrofol Antur Diwylliannol Tywysedig a ddefnyddir mewn siartiau ymchwil a data*


### Antur 2 – Antur Ceredigion yn cwmpasu Capeli, Caws, Dŵr a Gwlân





Q5B - A fyddech chi'n debygol o hyrwyddo Taith 2 Antur Ceredigion i'ch gwesteion?





Q6B - Ydych chi'n meddwl y byddai'ch gwesteion yn debygol o fforddio'r gweithgaredd ar Daith 2?




Q1 – Pa mor debygol fyddech chi o ddefnyddio'r daith antur wledig hon pan fyddwch chi'n aros ar hyd arfordir Ceredigion?





Q3 - Pe byddem yn prisio'r Antur hwn ar £75.00 y person a £145.00 fesul grŵp teulu (2 oedolyn a 2 blentyn), a fyddech yn debygol o dalu'r swm hwn am wibdaith gwyliau




*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Taflenni arbrofol Antur Diwylliannol Tywysedig a ddefnyddir mewn siartiau ymchwil a data*


Antur 3 – Antur Ceredigion mewn Sgiliau Gwledig





Q5C - A fyddech chi'n debygol o hyrwyddo Taith 3 Antur Ceredigion i'ch gwesteion?





Q6C - Ydych chi'n meddwl y byddai'ch gwesteion yn debygol o fforddio'r gweithgaredd ar Daith 3?




Q1 – Pa mor debygol fyddech chi o fynd ar y daith antur wledig hon pan fyddwch chi'n aros ar hyd arfordir Ceredigion?





Q3 - Pe baem yn prisio'r Antur hwn ar £75.00 fesul grŵp teulu (2 oedolyn a 2 blentyn), a fyddech yn debygol o dalu'r swm hwn am wibdaith gwyliau




*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

***Taflenni arbrofol Antur Diwylliannol Tywysedig a ddefnyddir mewn siartiau ymchwil a data***


Antur 4 – Antur Ceredigion drwy Gerddoriaeth Gymreig a noson fwyd





Q5D - A fyddech chi'n debygol o hyrwyddo Taith 4 Antur Ceredigion i'ch gwesteion?





Q6D - Ydych chi'n meddwl y byddai'ch gwesteion yn debygol o fforddio'r gweithgaredd ar Daith 4?




Q1 – Pa mor debygol fyddech chi o fynd ar y daith antur wledig hon pan fyddwch chi'n aros ar hyd arfordir Ceredigion?





Q3 - Pe baem yn prisio'r Antur hwn ar £75.00 y person, a fyddech yn debygol o dalu'r swm hwn am wibdaith gwyliau




*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Taflenni arbrofol Antur Diwylliannol Tywysedig a ddefnyddir mewn siartiau ymchwil a data*


Antur 5 – Antur Ceredigion – Llwybrau Trysor





Q5E - A fyddech chi'n debygol o hyrwyddo Taith 5 Antur Ceredigion i'ch gwesteion?





Q6E - Ydych chi'n meddwl y byddai'ch gwesteion yn debygol o fforddio'r gweithgaredd ar Daith 5?




Q1 – Pa mor debygol fyddech chi o ddefnyddio'r daith antur wledig hon pan fyddwch chi'n aros ar hyd arfordir Ceredigion?




Q3 - Pe baem yn prisio'r Antur hwn ar £9.00 fesul llyfryn llwybr a lawrlwythir (ar gyfer 4 o bobl), a fyddech yn debygol o dalu'r swm hwn am wibdaith gwyliau



*Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i'w darllen yn ddigidol, chwyddwch i mewn am well ddarllenadwyedd*

## *Cynllun gweithredu a chostau dangosol*

| Camau a awgrymir | Manylion | Beth sydd angen ei ariannu | Costau dangosol |
|---|---|---|---|
| 7.1 Sefydlu corff cyd-gysylltu | I'w reoli gan sefydliad sy'n bodoli eisioes, creu menter gymdeithasol i'w rheoli neu gontractio allan | Swydd cydlynydd.<br>Costau rheoli.<br>Costau gweithredol (TG., lleoliad swyddfa, a cit, nwyddau traul).<br>Goruchwyliaeth gan Grwp Llywio. | Swydd, c £25k, a 30% costau ychwanegol = £32,500.<br>Rheolaeth, £200 yr wythnos, am 2 flynedd = £20,800.<br>Cost gweithredol = £8000 (15% o gostau cyflog). |
| 7.2 Gweithgaredd brandio, i gwmpasu PGC, lleoliadau a themau | Arbenigwr brandio wedi'i gontractio i gyflenwi | Contract brandio, sgematic dylunio a chanllaw defnydd | Cytundeb = £10,000 |
| 7.3 Datblygu a darparu Anturiaethau Diwylliannol Tywysedig (ADT) | Gweithio gyda'r cydlynydd i ddatblygu a chadarnhau cyflenwyr ar gyfer GCAs, amserlennu calendr o ddigwyddiadau neu gynnal a lansio opsiynau digidol. Sefydliad sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol wedi'i gontractio i fodloni'r elfennau hanfodol i gynnwys costau, ymrwymiad llwyr gan gyflenwyr profiadau, trafnidiaeth a darpariaeth bwyd a diod. Manylebau i gynnwys pob agwedd ar fynediad, diogelwch, yswiriant fel y bo'n berthnasol, cynlluniau wrth gefn. | Contractiwr | Cytundeb = £12,000 |
| 7.4 Ffurfio a hyfforddi grŵp o Dywyswyr Twristiaeth lleol | Recriwtio ymgeiswyr addas a chyflwyno cymhwyster Tywyswyr Twristiaid Lefel 2 Cymru (Arweinwyr Cerdded) | Contractiwr i gyflwyno, y cydlynydd i arwain ar recriwtio Tywyswyr dan hyfforddiant o'r gymuned leol | £6000 |
| 7.5 Casglu cronfa ddata o Anturiaethau Diwylliannol Tywysedig yn holl drefi Gwledig Ceredigion | Archif ar wahân o themâu, teithlenni a chyflenwyr y gellir eu diweddaru yn ôl yr angen | | Dim, dylai hwn fod yn allbwn sydd wedi'i gynnwys yn rhif 7.3 uchod |

## *Cynllun gweithredu a chostau dangosol*

| Suggested action | Detail | What needs to be funded | Indicative costs |
|---|---|---|---|
| 7.6 Gwella cyfleusterau a lleoliadau, er mwyn gwella parodrwydd ymwelwyr | Gellir nodi a hwyluso cymorth ar gyfer gwelliannau cyfalaf a refeniw gan fenter Adfywio Trefi Gwledig Ceredigion, a gefnogir gan gynllun LEADER Cynnal y Cardi, yn ogystal ag awdurdodau eraill.<br><br>Gweithdy i gefnogi datblygiad busnesau i sicrhau parodrwydd a safonau ansawdd ar gyfer 7.3 | Cytundeb i ddatblygu a chyflwyno gweithdai | Cytundeb = £3,000 |
| 7.7 Ymgyrch Marchnata a gwerthu, i gynnwys sianeli prynu wedi’u hamserlennu | Cyngor gan dîm marchnata CS Ceredigion. | Contract gydag asiantaeth marchnata a chysylltiadau cyhoeddus. | Dim |
| Profiadau Airbnb | Ymgyrch farchnata strwythuredig wedi'i thargedu ar gyfer y marchnadoedd a nodwyd yn yr ymchwil. | Dylai lleoliad a chynnal y cynnig ar sianeli prynu gael ei gwmpasu gan rôl y cydlynydd. | £15,000 |
| Viator (mewn perchnogaeth TripAdvisor) | Lleoli cynnyrch o fewn sianeli prynu. | | Dim |
| 7.8 Gwyl Anturiaethau Diwylliannol Tywysedig | Wythnos cyn y tymor gwyliau o Anturiaethau Diwylliannol Tywysedig â chymhorthdal, e.e., yn ystod hanner tymor y Sulgwyn, yn pontio’r penwythnos heb fod yn Ŵyl y Banc yn ystod yr egwyl honno, i ddal y ddwy farchnad darged. | Costau rhedeg yr Wŷl.<br><br>Y cydlynydd i drefnu. | Awgrymir isafswm o £5000 o gostau gweithredu, i gynnwys cyfraniad cyfatebol gan fusnesau lleol. £2000 o gostau hyrwyddo. |
| 7.9 Costau’r argtmhellion at ddibenion ariannu | Ystyried costau cyffredinol Anturiaethau Diwylliannol Tywysedig | Sicrhau cyllid i gefnogi, rheoli costau drwy gydol y cyfnod cyflawni, gweithio tuag at gynaliadwyaeth ariannol | Dim, gyda chefnogaeth y cydlynydd, y rheolwyr a’r Grŵp Llywio |